Rhifyn 24 | Haf 2024 | www.ecclesiastical.com/church

ecclesiastical

# materion eglwysig

Cylchlythyr gan Ecclesiastical i'n holl gwsmeriaid, aelodau a chyfeillion y PCC.



## Yn y rhifyn hwn

Yswiriant – Made Simple! – tudalen 4 a 5
Sero Net erbyn 2030: cyllid y Benefact Trust – tudalen 8
Cyllid i wneud eich eglwysi yn fwy 'gwyrdd'– tudalen 10
Buddsoddi mewn gwneud gwahaniaeth – tudalen 11

# Gweithio gyda chi dros ddyfodol mwy gwyrdd

**Helen Richards – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Eglwysi**



Gallwn weld bod ein hinsawdd yn newid, ac er bod hyn yn cyflwyno heriau mae hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i eglwysi, yn enwedig wrth iddynt weithio i gyrraedd sero net.

Yma yn Ecclesiastical, rydyn ni'n credu bod yna ddigon y gallwn ni ei wneud i helpu i warchod adeiladau eglwysi heddiw a rhoi cefnogaeth wrth inni edrych tuag at ddyfodol mwy gwyrdd. Drwy gyfrwng amrywiol wobrau, nawdd, ac arweiniad gan arbenigwyr, rydyn ni'n cynyddu ein cefnogaeth i gwsmeriaid i'w helpu i helpu'r amgylchedd, ac fe gewch ddarllen am lawer o'n cynlluniau yn y rhifyn hwn o Materion Eglwysig.

Does dim amheuaeth nad yw newid hinsawdd yn real, rydyn ni eisoes yn gweld ei effeithiau, er enghraifft, mae adeiladau nad yw glaw erioed wedi effeithio arnynt yn awr yn llifo, ac rydyn ni'n teimlo ei bod yn ddyletswydd arnom i wneud popeth y gallwn, i leihau ein hallyriadau carbon ein hunain a helpu ein cwsmeriaid eglwysig i wneud yr un peth. Gwyddom eu bod eisiau chwarae eu rhan, ond weithio fel all deimlo braidd yn frawychus. Ein neges yw: rydyn ni'n angerddol am hyn, rydyn ni yma gydag arbenigedd ac arweiniad felly cofiwch gysylltu â ni i weld sut allwn ni helpu.

> *"Mae'n wych cael bod yn rhan o brosiectau arloesol fel hwn, gan helpu i fynd i'r afael â'r her carbon sero net ac ysbrydoli eraill, gyda lwc."*

## Mae amrywiaeth o help i'w gael

Pan mae'r gwaethaf yn digwydd, a phan geir colled fawr, fe allai'r help hwnnw fod ar ffurf ailadeiladu mewn ffyrdd sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd. Rydyn ni wedi cyflwyno yswiriant ychwanegol penodol i blwyfi, sy'n ein galluogi i wneud hyn, hyd yn oed os yw'n costio ychydig yn fwy.

Felly, pan ddinistriwyd Eglwys yr Esgyniad Gradd II hardd yn Salford drwy losgi bwriadol yn 2017, buom yn gweithio gyda'r eglwys i ailsefydlu'r adeilad mewn ffordd fwy gwyrdd.

Gosodwyd system wresogi ffynhonnell aer dan y llawr yn lle'r hen system wresogi aneffeithlon, a gosodwyd goleuadau synhwyro symudiadau LED i fod yn fwy ynni-effeithlon. Fe wnaethon ni hyd yn oed helpu'r eglwys gyda manylion llai, fel cynhwysydd canhwyllau offrwm newydd sy'n ailgylchu'r cwyr!

*Ymlaen i dudalen 2...*

Eglwys yr Esgyniad



Contains promotional material

# Gair gan ein Pennaeth Gweithrediadau Cwsmeriaid



Hoffwn estyn croeso cynnes ichi i Materion Eglwysig, gan obeithio y cewch chi gymaint o bleser yn darllen y cylchlythyr hwn ag a gawson ni yn ei ysgrifennu i chi.

Ar ôl un o'r gaeafau gwlypaf ar gofnod, rydyn ni gyd heb os yn meddwl fwyfwy am newid hinsawdd, ac felly mae'r rhifyn arbennig hwn yn canolbwyntio ar **FATERION GWYRDD**.

Mae ein stori gyflwyniadol yn cyfeirio at effeithiau newid amgylcheddol, gan achosi patrymau tywydd anghyffredin a llifogydd dinistriol. Yn Ecclesiastical, rydyn ni'n gweithio'n galed i gefnogi ein cwsmeriaid eglwysig drwy roi iddynt syniadau ac arweiniad ymarferol ar sut i gael cyllid ar gyfer cynlluniau gwyrdd – darllenwch ymlaen i ddysgu rhagor ar y tudalennau nesaf.

Rydyn ni'n falch dros ben o fod yn noddi **Gwobrau Eglwysi Gwyrdd 2024** papur newydd The Church Times ac, wrth gwrs, rydyn ni wedi gosod ein targedau ein hunain i gyrraedd carbon sero net; cewch wybod llawer mwy am hynny yn y gwanwyn.

Ac mae yna erthyglau eraill hefyd! Wrth inni (gyda lwc) nesáu at y misoedd sychach, cynhesach, gallai ein meddyliau yn ddigon hawdd fod yn troi at ddigwyddiadau awyr agored a ffeiriau eglwysig. Fel y byddwch yn ei ddisgwyl, yn y rhifyn hwn, fe gewch chi hefyd ddigonedd o awgrymiadau a syniadau defnyddiol ar sut i gadw eich eglwys a'ch cynulleidfa yn ddiogel wrth ichi gael hwyl yn yr haul.

Pan drowch i'r dudalen ôl, cewch ddarllen am ein Yswiriant Cartref **Trust130** – a sut allwch chi helpu eich eglwys ddim ond drwy yswirio eich cartref gyda ni.

Yn olaf, mae eich adborth yn werthfawr dros ben inni ac os oes testunau penodol yr hoffech eu gweld mewn cylchlythyrau i'r dyfodol, cofiwch roi gwybod inni. Rydyn ni wastad yn hapus i glywed gennych chi.

Diolch ichi am ymddiried ynom ar gyfer eich anghenion yswiriant. Dymuniadau gorau,

**Mark Cowdell**
Pennaeth Gweithrediadau Cwsmeriaid

**O.N.** Pan fyddwch wedi gorffen darllen eich copi o Materion Eglwysig, a fyddech cystal ag ystyried ei drosglwyddo i rywun arall a all ei fwynhau hefyd!

*Parhad o'r clawr...*

Mae colled fel yna yn drasiedi, ond mae'n rhoi ichi gyfle i feddwl am wella cynaliadwyedd. Mae yna lawer o esiamplau yn y miloedd o hawliadau yr ydyn ni'n delio â nhw bob blwyddyn lle'r ydym wedi helpu ein cwsmeriaid i adfer adeiladau mewn ffordd sy'n well i'r amgylchedd.

## Ond wrth gwrs, mae ein cefnogaeth yn mynd y tu hwnt i hawliad

Mae Ecclesiastical yn rhan o'r Benefact Group, ac er 2019, mae'r grŵp wedi rhoi dros £5.75m i dros 2,500 o elusennau fel rhan o'i Wobrau Movement for Good. Yn 2023, aeth un o'r gwobrau i Eglwys St Matthew's yn Kingsdown, Bryste, sydd wedi'i ddefnyddio i osod siandelïers 'halo' gwres rheiddiol. Maent wedi'u dylunio i weddu i hen adeiladau, ac maen nhw'n gweithio bron ar unwaith, i gynhesu dim ond y gofod sydd ei angen; maent wedi lleihau hyd at 85% ar eu biliau.

(Ewch i **www.movementforgood.com** i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen nawdd arbennig hon).

Mae'n wych cael bod yn rhan o brosiectau arloesol fel hwn, gan helpu i fynd i'r afael â'r her carbon sero net ac ysbrydoli eraill gyda lwc. Tra bod gan dechnoleg arloesol ran i'w chwarae, mae yna lawer o bethau rhatach a symlach y gallwn ni oll eu gwneud; mae rhannu storïau a syniadau a dysgu oddi wrth lwyddiannau ein gilydd yn mynd i helpu pob un ohonom.

Rydyn ni hefyd yn noddi gwobrau Eglwysi Gwyrdd 2024 The Church Times, a fydd yn dathlu'r gwaith y mae eglwysi eisoes yn ei wneud, ac ysbrydoli eraill eto – mae'n un ffordd arall y gallwn ni helpu.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi rhaglen uchelgeisiol Eglwys Lloegr i gyrraedd Carbon Sero Net erbyn 2030, yn ddiweddar fe wnaethon ni noddi a chynnal y Gynhadledd Gyswllt Carbon Sero Net yn ein prif swyddfa. Roedden ni'n falch iawn o groesawu tua 60 o gynrychiolwyr o Eglwys Lloegr ac enwadau eraill a drwy gynnal y digwyddiad hwn rydyn ni wedi gallu dwyn ynghyd arbenigwyr o bob rhan o'r wlad i rannu eu storïau a'u profiadau.




Stuart Blackie

Rhoddodd Stuart Blackie, ein Prif Syrfëwr Rheoli Risgiau, sgwrs ddiddorol a llawn gwybodaeth am y pethau syml y gallwch chi eu gwneud y funud hon. Er enghraifft, mae dim ond cynnal eich cwteri a'ch draeniau yn golygu y bydd y dŵr o storm law fawr yn llai tebygol o achosi difrod i'ch adeilad.

Yn y gynhadledd, fe wnaeth y Parchedig Ganon Dr Flora Winfield, *Y Trydydd Gomisiynydd Ystadau a Chadeirydd Rhaglen NSC*, ddadlennu grant gwerth £1.5m gan y Benefact Trust, perchnogion elusennol Ecclesiastical Insurance, a fydd yn ariannu eglwysi arddangos ar draws y wlad – llefydd y gall cwsmeriaid eglwysig fynd i weld yr arferion gorau ar waith.

Fe wnaethom hefyd ddatguddio ein harweiniad Made Simple diweddaraf, Climate Change and Your Church, sy'n arweiniad hawdd ei ddarllen a fwriedir yn arbennig ar gyfer ein cwsmeriaid eglwysig. Mae'n llawn o wybodaeth ddefnyddiol am bopeth o gynnal a chadw a defnyddio eich cyfleusterau presennol yn y ffordd wyrddaf posibl i'r pethau i feddwl amdanynt pan fyddwch yn buddsoddi mewn technoleg newydd a'r hyn y gallai ei olygu i'ch yswiriant, a hefyd sut i ymgeisio am grantiau, a chodi arian.

Gwyddom fod eglwysi yn meddwl bod lleihau eu heffaith ar yr hinsawdd yn rhan o'u cennad i warchod creadigaeth Duw, ac mae llawer ohonynt yn cymryd camau i gyrraedd sero net. Dyna pam ein bod wedi lansio ein harweiniad Made Simple a pham ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu eglwysi ar eu siwrnai i fod yn fwy cydnerth yn wyneb newid hinsawdd.  Rydyn ni eisiau helpu ein cwsmeriaid i gael effaith wirioneddol, a gorau po gyntaf y gallwn ni fod yn rhan o brosiectau newydd, felly cofiwch gysylltu â ni i drafod eich cynlluniau.



**Helen Richards**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Eglwysi





# Newid hinsawdd a'ch eglwys chi




Yn ein harweiniad **Made Simple** diweddaraf, mae Ecclesiastical Insurance yn pwyso a mesur gyda chi sut allai newid hinsawdd effeithio ar eich eglwys a ffyrdd o gwtogi eich ôl-troed carbon. Rhoddwn hefyd sylw i beth allai newid hinsawdd ei olygu i'ch yswiriant.

Mae'r ychwanegiad diweddaraf hwn i'r gyfres yn un o blith nifer o ganllawiau defnyddiol sydd i'w cael ar ein gwefan; a dros y dudalen gallwch ddarllen mwy am yr 11 ohonynt.

**www.ecclesiastical.com/documents/green-made-simple-guide.pdf**

# Noddwr balch y Gwobrau Eglwysi Gwyrdd!



Fel cwmni, rydyn ni wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac felly rydyn ni'n falch dros ben o fod yn noddi Gwobrau Eglwysi Gwyrdd The Church Times 2024. Bu Ecclesiastical yn gwarchod eglwysi ers dros 135 mlynedd, a gwyddom fod angen gweithredu er mwyn gwarchod yr adeiladau hynod hyn rhag newid hinsawdd am genedlaethau lawer.

Mae yna nifer o gynlluniau hynod yn mynd rhagddynt mewn eglwysi a chymunedau ym mhob cwr o'r wlad sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac mae'r gwobrau hyn yn gyfle gwych i'w dathlu.

Byddem yn annog eglwysi i gyflwyno eu cais a rhannu eu prosiectau am gyfle i gael £1,000 i gefnogi eu gwaith.

**www.churchtimes.co.uk/green-church**

# Darllenwch fi ar-lein

Wyddech chi y gallwch ddarllen y cylchlythyr hwn ar-lein a hyd yn oed llwytho copi i lawr i'w rannu â'ch ffrindiau, eich teulu, ac aelodau eraill yr eglwys? Sganiwch y cod QR neu ewch i:

**www.ecclesiastical.com/churchmatters**



# Symleiddio Yswiriant i Chi!

Gall yswiriant ymddangos yn ddychrynllyd a chymhleth – ond does dim rhaid i bethau fod fel yna. Rydyn ni wedi creu nifer o ganllawiau Made Simple – sy'n cynnwys gwybodaeth gryno, glir, a hawdd ei deall am faterion allweddol y mae pobl yn ein holi amdanynt fwyaf – o ddigwyddiadau i waith adeiladu, ac o waith yn y gymuned i gostau cyfreithiol.

**Mae'r holl ganllawiau Made Simple hyn ar gael ar ein gwefan drwy'r ddolen hon:**

**www.ecclesiastical.com/madesimple**

Cofiwch glicio drwodd – maen nhw'n fyr ac yn hawdd iawn eu darllen, ac rydyn ni'n siŵr y byddent yn ddiddorol ichi, yn procio eich meddwl, ac yn berthnasol pan edrychwch ar yswiriant eich eglwys i'r dyfodol.

1



## Gweinyddu yswiriant

Mae'n bwysig bod polisïau yswiriant yn cael eu gweinyddu'n iawn. Fe gewch help gyda phopeth, o ba ddogfennau mae arnoch angen eu cadw a'u harddangos, sut i dalu a lleihau eich premiymau, i roi gwybod inni am newidiadau perthnasol neu am weithgareddau newydd yn eich eglwys a gwneud a phrosesu hawliadau.

2



## Gwaith adeiladu

Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith adeiladu ar yr eglwys, mae yswiriant yn hanfodol, ac mae'r math o waith a'i faint yn gwneud gwahaniaeth. Bydd yr arweiniad hwn yn dweud beth mae angen ichi ddweud wrthym a phryd, ac mae hefyd yn cynnwys nodweddion cyffredin: sgaffaldau, 'gwaith poeth' fel weldio neu fflamau agored, a hyd yn oed y contract adeiladu rydych chi'n ei drafod. Mae'n bwysig iawn ystyried yr holl ffactorau hyn.

3



## Prisio eich eglwys

Os ceir digwyddiad mawr, fel tân difrifol yn eich eglwys, mae'n hanfodol bod y swm sydd wedi'i yswirio yn ddigon i wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol. I'ch helpu i ddeall hyn, mae gennym Wasanaeth Adolygu Risg a Phrisio ar gael ichi. Mae'r arweiniad hwn yn egluro sut rydyn ni'n defnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth, drwy ein bod wedi yswirio eglwysi ers dros 135 o flynyddoedd, i brisio eich eglwys.

4




## Digwyddiadau eglwysig

Y dyddiau hyn, caiff eglwysi eu defnyddio ar gyfer llawer mwy nag ond addoli, ac fe allai hyn gael effaith ar iechyd a diogelwch ac ar eich yswiriant. Mae'n ddigon posibl bod eich yswiriant cyfredol yn ddigonol, ond mae'n bwysig holi – fel y dengys ein harweiniad, fe allai'r math o ddigwyddiad a'r rhan y byddwch chi'n ei chwarae wneud gwahaniaeth mawr.

5



## Allan yn y gymuned

Mae gwaith yr eglwys yn datblygu'n barhaus y tu hwnt i ffiniau cynulleidfa draddodiadol i groesawu'r gymdeithas ehangach – ond pa ystyriaethau yswiriant sy'n codi yn sgil rhedeg banciau bwyd, a chaffis, neu fynd allan i'r gymuned fel gweinidog stryd a chynnal digwyddiadau *Fresh Expressions* dynamig?

6




## Pobl ar eiddo'r eglwys

Mae gennych ddyletswydd i sicrhau bod pawb ar eich eiddo yn ddiogel – mae eglwysi yn adeiladau hynod, ond mae'r gyfraith Iechyd a Diogelwch yn dal yn berthnasol. Mae gennyn ni arweiniad ar ba gamau i'w cymryd i asesu ac atal anafiadau neu ddamweiniau rhag digwydd.

7



## Eiddo'r Eglwys

Rydych chi'n gyfrifol am eich eglwys a'r hyn sy'n digwydd ar yr eiddo. Mae difrod oherwydd tân, llifogydd, neu ladrad yn dorcalonnus – a gall anaf i bobl neu eiddo oherwydd llwybr llithrig neu wreiddiau coed rhy fawr fod yn ddifrifol. Rydyn ni'n edrych ar sut gallwch atal problem yn yr egin.

8



## Adeiladau gwag

Yn anffodus, mae eglwysi weithiau'n cau. Ond rhaid gofalu amdanynt o hyd – a'u hyswirio. Mae perygl iddynt fynd ar dân, dioddef difrod maleisus, traul cyffredinol, a lladrad. Gallwn eich cynghori ar y prosesau cywir i'w dilyn i liniaru'r peryglon hyn, a'r yswiriant gofynnol.

9



## Costau cyfreithiol – Eglwysi

Mae ein polisïau yswiriant i eglwysi yn cynnwys, fel mater o drefn, yswiriant costau cyfreithiol i helpu gweinidogion, gweithwyr, a gwirfoddolwyr sy'n cael eu hunain yng nghanol achos cyfreithiol sifil neu droseddol. Mae'n bwysig deall pwysigrwydd yr yswiriant sydd ar gael a sut i ddelio â materion o'r fath neu sut i gael cyngor cyfrinachol.

10




## Technoleg ddigidol

Mae cyfrifiaduron a'r we wedi agor eich eglwys i'r byd – ond er bod hyn yn rhoi ichi fanteision gwych, mae hefyd yn rhoi ichi lu o risgiau y dylid yswirio yn eu herbyn. Rydyn ni'n helpu gyda phopeth o seiber-drosedd i ddiogelu data, i ddiogelu, i drwyddedu meddalwedd, a gwarchod yr offer ei hun.

11



## Carbon Sero Net

Er ein bod yn symud at fyd sero net gydag allyriadau carbon is, rydyn ni eisoes yn gweld tywydd mwy anwadal a allai beri risg y bydd angen i'ch yswiriant ei hadlewyrchu. Ond bydd technoleg lanach, fwy newydd i wresogi a goleuo eich eglwys yn rhoi manteision ac yn arbed arian ichi i'r dyfodol hefyd.

# Llinell Gymorth Risg

Mae ein Llinell Gymorth Risg ar gael o 9am tan 5pm dydd Llun i dydd Gwener (heblaw Gwyliau Banc) ac mae'n eich cysylltu â'n tîm o 50 o arbenigwyr Rheoli Risg. Caiff eich ymholiad ei roi i Ymgynghorydd neu Syrfëwr Rheoli Risg arbenigol yn gyflym a bydd yn cysylltu'n ôl â chi cyn pen 24 awr. Fe wnânt eich cefnogi gydol y broses a'ch cyfeirio at adnoddau defnyddiol; rydym yn ymdrechu i ddatrys pob ymholiad cyn pen pump diwrnod gwaith.

**risk.advice@ecclesiastical.com**



# Sut i wneud hawliad

Os buoch yn ddigon anffodus i orfod gwneud hawliad, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl, gallwch gysylltu â ni 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos gyda'ch hawliad.

**0345 603 8381**
**claims@ecclesiastical.com**
**www.ecclesiastial.com/claims**

**99%**
**Yn fodlon â'u hawliadau**[1]

[1]Canlyniadau ffigurau Barn Cwsmeriaid Blwyddyn lawn 2023 o Hawliadau Eiddo wedi'u Setlo gan Ecclesiastical o blith 363 o gwsmeriaid uniongyrchol yr oedd eu hawliadau wedi'u setlo.





# Gyda'r haf ar y gorwel, efallai eich bod yn dechrau meddwl am ddigwyddiadau

Mae digwyddiadau yn ffordd wych o groesawu aelodau newydd i gymuned yr eglwys. Pan ydych chi wedi eich yswirio gyda Ecclesiastical, fe welwch fod yswiriant ar gyfer llawer o ddigwyddiadau eglwysig, fel ffeiriau a boreau coffi, eisoes wedi'i gynnwys yn eich polisi, gan eu bod yn syrthio dan ymbarél gweithgareddau eglwysig arferol, sy'n golygu eu bod eisoes wedi'u gwarchod drwy eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'ch yswiriant atebolrwydd cyflogwr. Gall hyn roi tawelwch meddwl ichi ar gyfer eich digwyddiadau; ond byddem wastad yn eich cynghori i wneud yn siŵr!

Heb gynllunio'n iawn, fe allai digwyddiadau annisgwyl effeithio ar ddigwyddiad eglwysig sydd, fel arall, yn llwyddiannus. Mae yna lawer o bethau i'w hystyried, ond y cam cyntaf wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiad yw gwneud adolygiad o'r trefniadau diogelwch presennol, hyd yn oed os mai digwyddiad bach ydych chi'n ei drefnu, fel stondinau gwerthu, mae hyn yn beth pwysig i'w wneud. Cliciwch y ddolen i weld y cwestiynau cyffredin:

**www.ecclesiastical.com/church-events**




## Pethau i'w hystyried wrth drefnu digwyddiad

Chwiliwch am unrhyw ddifrod a llanast a wnaed ar ôl misoedd y gaeaf; fel slabiau pafin wedi torri, canghennau wedi syrthio a hyd yn oed giatiau sydd wedi chwyddo ac yn rhy stiff i'w hagor. Mae cyngor hawdd ei ddefnyddio ar gael ar ein gwefan i'ch helpu i drefnu eich digwyddiad.

## Holwch ni i weld a oes arnoch angen yswiriant ychwanegol

Os ydych chi'n cynnal digwyddiad sy'n anghyffredin neu a allai fod yn beryglus, cofiwch gysylltu â ni er mwyn inni wneud yn siŵr bod gennych yswiriant digonol. Os ydych chi'n gosod yr adeilad i sefydliad allanol, fel Grŵp Sgowtiaid, gofynnwch a oes ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol eu hunain, gallech ofyn am weld atodlen eu hyswiriant. Rydyn ni am i'ch digwyddiad fod yn llwyddiant, a gwyddom fod angen ichi ystyried llawer mwy nag ond yswiriant, ond pan fyddwch yn ei ystyried, bydd y ddolen hon yn eich helpu:

**www.ecclesiastical.com/church**

Mae croeso ichi hefyd ein ffonio i siarad gyda'n tîm os oes gennych unrhyw gwestiynau ar

**0345 777 3322**

Ac yn olaf... Cofiwch fwynhau eich hunain a mwynhau treulio amser gyda ffrindiau'n hen a newydd!





# Gweithio ar le uchel

Os ydych chi'n meddwl glanhau neu wneud gwaith trwsio yn uchel i fyny yn eich eglwys yr haf yma, edrychwch ar ein harweiniad cyn ichi wneud hynny. Mae'n llawn o awgrymiadau defnyddiol ar y camau y gallwch chi eu cymryd i sicrhau bod pawb yn ddiogel.

**www.ecclesiastical.com/working-at-height**



# Cefnogaeth fesul mis!

Oherwydd llawer o alw, rydyn ni eto wedi cynhyrchu calendr hawdd ei weld, gan eich helpu i gynllunio gweithgareddau cynnal a chadw gydol y flwyddyn er mwyn ichi allu gofalu'n well am eich eglwys a thrigolion y plwyf. O pryd i sicrhau bod eich pibellau dŵr wedi'u lapio'n iawn i sut i gael Nadolig hapusach a phob dim arall, mae Ecclesiastical yma i chi!

**www.ecclesiastical.com/risk-calendar**



# E-newyddion misol am ddim

Mae ein e-newyddion misol yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda phethau fel codi arian, diogelu'r eglwys a'r effaith ar yr amgylchedd. Mae'n hawdd tanysgrifio a gallwch dynnu'n ôl pan hoffech wneud hynny drwy glicio'r ddolen ar waelod y negeseuon e-bost.

Mae llawer o'n cwsmeriaid wedi dewis derbyn hwn, a rydym yn gobeithio yr hoffech chi ymuno â nhw. Mae croeso ichi basio'r ddolen danysgrifio ymlaen at unrhyw un arall yng nghymuned yr eglwys a fyddai'n hoffi copi. Tanysgrifiwch yma:

**www.ecclesiastical.com/signup**

# Mae eich adborth yn werthfawr

Rydym yn croesawu eich barn am Materion Eglwysig a hoffen wybod gennych chi a yw'r cylchlythyr yn bodloni eich disgwyliadau. **Sganiwch y cod QR** i lenwi holiadur byr; munud neu ddau gymerith o.
Diolch!

# Sero net erbyn 2030: Cyllid y Benefact Trust ar gyfer nod hinsawdd Eglwys Lloegr



BENEFACT TRUST

Helen Gray

Mae'r Benefact Trust wedi addo rhoi £1.5m at brosiect hinsawdd blaenllaw Eglwys Lloegr. Bydd y prosiect hwn yn cynorthwyo 60 o eglwysi i gyrraedd sero net (neu'n agos i hynny) erbyn diwedd 2025.

Bydd yr eglwysi hyn yn ysbrydoli eglwysi eraill i fabwysiadu arferion sero net da, ac mae'r prosiect hwn yn rhan o darged ehangach er mwyn i rwydwaith cyfan Eglwys Lloegr fod yn sero net erbyn 2030.

Yn 2021, fe wnaeth Adroddiad Allyriadau Carbon Eglwys Lloegr ddatgelu bod adeiladau eglwysi yn allyrru tua 411,000 o dunelli o nwyon tŷ gwydr. Mae gofalu am y greadigaeth yn un o genadaethau craidd yr Eglwys ac felly mae'n gweithredu i helpu i ddiogelu ein planed. Yr uchelgais yw y bydd eglwysi ar draws y wlad, erbyn 2030, yn defnyddio llawer llai o ynni ac yn allyrru llawer llai o garbon.

Mae cyllid y Benefact Trust yn cefnogi'r 'Prosiect Eglwysi Arddangos', sy'n un mewn cyfres o brosiectau gan Eglwys Lloegr, sydd â'r nod o helpu esgobaethau, plwyfi ac adeiladau eraill i gyrraedd sero net.

Drwy gyfrwng y prosiect, caiff eglwysi ar draws Lloegr eu henwebu gan eu hesgobaethau i wneud cais am un o ddau grant oddi wrth Raglen Carbon Sero Net Eglwys Lloegr. Grant Paratoi Cam 1 i helpu i sefydlu prosiect sero net, neu Grant Cyfalaf Cam 2 i gael hyd at 25% o gostau prosiect sydd wedi datblygu i raddau helaeth.



Bydd y rhwydwaith o Eglwysi Arddangos yn rhannu'r gwersi a ddysgir a'r arferion gorau i helpu esgobaethau a phlwyfi yn ehangach i gyrraedd sero net. Bydd holl eglwysi Eglwys Lloegr yn cael defnyddio profiad, astudiaethau achos a hyrwyddwyr sy'n lleol ac yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw eu hunain.

Mae'r ymddiriedolaeth wedi rhoi £750,000 o gyllid i gefnogi carfan eglwysi 2024. Mae £750,000 arall wedi cael ei addo ar gyfer 2025. Wrth i'r ymddiriedolaeth symud i chwarae rhan weithgar i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae'r bartneriaeth gydag Eglwys Lloegr yn rhoi iddi gyfle i weithio gyda sefydliad sydd eisoes ar lawr gwlad, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

**Helen Gray**, Cyfarwyddwr y Benefact Trust:

> *" Dyma ein grant strategol cyntaf sy'n canolbwyntio ar hinsawdd. Mae'n fraint mynd i bartneriaeth ag Eglwys Lloegr sydd â chynlluniau mawr, wrth inni gymryd camau breision ymlaen i ddelio â newid hinsawdd. "*

Mae rhagor o wybodaeth am grantiau sero net Eglwys Lloegr i'w gweld yma:

**www.churchofengland.org/resources/churchcare/net-zero-carbon-church/short-guide-grants-and-projects-help-your-church-get#na**

Y Benefact Trust yw perchennog elusennol y Benefact Group, sy'n cynnwys teulu o fusnesau arbenigol - gan gynnwys Ecclesiastical. Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi'r holl elw sydd ar gael o'r Grŵp i achosion da.

**Cliciwch isod am fwy o wybodaeth am y Benefact Trust a grantiau:**

**www.benefacttrust.co.uk**





# Ymunwch â'r Movement for Good ac enwebu eich eglwys chi

Mae Gwobrau'r Movement for Good yn blatfform rhoddi blynyddol, a sefydlwyd gan yr holl fusnesau sy'n ffurfio'r Benefact Group. Dyma ein cyfle ni i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r bobl, y cymunedau, yr eglwysi a'r elusennau a wasanaethwn.

Gall unrhyw un enwebu elusen gofrestredig, mudiad nid er elw, neu gwmni budd cymunedol, yn y Deyrnas Unedig, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw. Caiff yr enwebiadau eu cynnwys mewn cyfres o rafflau am gyfle i ennill un o'r 370 o roddion o £1,000. Bydd enwau'n cael eu tynnu bum gwaith y flwyddyn hefyd, pan fydd 10 o roddion o £5,000 ar gael.

Mae grantiau mwy (£10,000+) hefyd ar gael i helpu i roi prosiectau trawsnewidiol mwy ar ben ffordd.

### Wyddech chi?

Mae Gwobrau Movement for Good wedi rhoi dros **£5.75 miliwn** i dros **2,500** o elusennau ers dechrau'r cynllun yn 2019.

Y llynedd, dyfarnwyd £5,000 i **A Rocha UK** pan dynnwyd ei henw dan y categori arbennig Amgylchedd a Hinsawdd. Elusen Gristnogol sy'n gweithio i ddiogelu ac adfer byd natur ydy A Rocha UK ac mae wedi ymrwymo i gynorthwyo Cristnogion ac eglwysi yn y Deyrnas Unedig i ofalu am yr amgylchedd.

Hefyd yn 2023, dyfarnwyd £11,000 i 10 o elusennau sy'n gysylltiedig â'r eglwys drwy gyfrwng Gwobrau £1,000 Movement for Good; bu'r **Kilkenny Christian Centre** yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ddigon lwcus i ennill ddwywaith! Y tro nesaf, efallai mai eich eglwys neu eich elusen chi fydd yn lwcus!

I gael gwybod rhagor, ewch i:

**www.movementforgood.com/ecclesiastical**

# Cymorth ariannol i'ch cyfnod sabothol yn 2025

## Ydych chi'n ystyried cymryd cyfnod sabothol yn 2025?

Sefydlwyd y Gwobrau Bwrsariaeth Gweinyddiaeth Eglwysig (MBAs) yn 1987 ac maent wedi cynorthwyo dros 1,500 o aelodau'r glerigiaeth drwy ariannu amrywiol brosiectau absenoldeb estynedig.

Gall y profiad a gewch mewn cyfnod sabothol newid eich bywyd a chael effaith gadarnhaol a pharhaol ar eich eglwys a'ch cymuned. Fe wnaeth un o'r derbynwyr yn 2023, y Parch Heston Groenewald, ficer yr All Hallows Church yn Leeds, dderbyn bwrsariaeth i gefnogi ei weinyddiaeth rhyng-ffydd leol.

Yn ei blwyf ef, ceir tri mosg ac un deml Hindŵaidd; ymwelodd ag India and Phacistan i brofi a dysgu mwy am yr arferion a'r diwylliannau amrywiol sy'n rhan o gyfansoddiad y gymuned leol. Ar ei daith, cafodd Heston brofiad o'r ŵyl Holi yn India, ymwelodd â Phacistan yn ystod Ramadan a dathlodd y Pasg gyda Christnogion a Moslemiaid yn Lahore.

Meddai Heston, "Diolch i'r grant MBA, cefais antur gwych o amgylch India a Phacistan ac felly fe fu'n fuddsoddiad gwerthfawr, ardderchog yn fy lles i ac yn fy ngweinyddiaeth rhyng-ffydd leol".

> *"Mae'r holl brofiad wedi llwyddo i ddyfnhau ac ehangu cyfeillgarwch ar draws pob ffydd yn ôl yn Leeds – felly rwy'n ddiolchgar iawn i Ecclesiastical am y cyfle."*

Mae'r ffenestr ymgeisio am raglen MBA 2025 yn awr ar agor ac mae'n cau ym mis Medi 2024. Yn 2025, rydyn ni'n awyddus iawn i weld mwy o gyfnodau sabothol sy'n ceisio cefnogi'r ymgyrch i gyrraedd carbon sero net.

Os hoffech ddysgu rhagor am y Gwobrau, gan gynnwys manylion y meini prawf cymhwyso a sut i ymgeisio, ewch i:

**www.ecclesiastical.com/mba**



Holi festival in India

# Cyllid i wneud eich eglwysi yn fwy gwyrdd




Herschel Infrared

Mae'r argyfwng hinsawdd yn un o'r materion mwyaf a phwysicaf sy'n wynebu'r byd heddiw – sut all eglwysi ymateb?

Ac ystyried mai un ffordd bwysig o leihau allyriadau carbon yw drwy ddefnyddio llai o ynni (a chael biliau llai o'r herwydd) dylai pawb fod ar ei ennill, ond ble ydych chi'n dechrau?

Dechreuwch drwy asesu pa mor wyrdd ydy eich eglwys ar hyn o bryd ac wedyn gwneud cynllun ar gyfer gwella. Ochr yn ochr â hyn, cewch ddatblygu eich stori, gan ddangos pam ei bod yn bwysig i'r eglwys ac fel mae cymryd camau i ofalu am greadigaeth Duw yn rhan o'ch cenhadaeth.

Ar ôl penderfynu ar gamau posibl, efallai bod yna ffyrdd o gael cyllid i gyfrannu at y costau:

- Mae Eglwys Lloegr wedi cynhyrchu canllawiau ardderchog, yn ogystal ag wedi clustnodi £30m ar gyfer grantiau i eglwysi sy'n awyddus i symud at sero net: Canllaw byr i grantiau a phrosiectau i helpu eich eglwys i gyrraedd sero net (**www.churchofengland.org**).
- Fe wnaeth y Llywodraeth lansio ei Chynllun Effeithlonrwydd Ynni VCSE gwerth £25.5m ym mis Rhagfyr 2023; bydd y cynllun hwn yn ariannu asesiadau Effeithlonrwydd Ynni ar eiddo elusennol, yna'n darparu cyllid cyfalaf i gyfrannu at y gwaith gwella. Cynllun Effeithlonrwydd Ynni VCSE – GOV.UK (**www.gov.uk**).
- Mae gan lawer o awdurdodau lleol gynlluniau grantiau i helpu adeiladau cymunedol, gan gynnwys eglwysi, i leihau eu hallyriadau – holwch eich cyngor sirol neu eich cyngor dosbarth i weld beth sydd ar gael.
- Mae Sefydliadau Cymunedol yn gyfrifol am ardaloedd penodol: Sefydliadau Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn thematig ac maent yn aml yn cynnwys rhaglenni cyllid i leihau carbon (**www.ukcommunityfoundations.org**).
- Mae gan nifer o gyrff cyllido cenedlaethol nodau i wella effeithlonrwydd ynni – mae Sefydliad Cymunedol y Loteri Genedlaethol a Sefydliad Garfield Weston yn pwysleisio hyn.
- Edrychwch am bartneriaethau neu weithgareddau penodol a allai ddenu cyllid perthnasol, e.e. grantiau sy'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau sy'n cynnig canolfannau cynnes dros y gaeaf.

Gall y gystadleuaeth am gyllid 'gwyrdd' fod yn ffyrnig, felly dechreuwch gyda thystiolaeth iawn o angen a chynllun clir yna taflwch eich rhwyd mor eang â phosibl a chanolbwyntio ar y manteision a gaiff yr eglwys o leihau allyriadau carbon.

I'ch helpu i ddod o hyd i gyllid, chwiliwch am ganllawiau hawdd eu defnyddio ac offer drwy ein hyb codi arian. Cewch ddarllen am amrywiaeth eang o destunau fel deall y broses grantiau, dweud eich stori a gweld rhestr am ddim o'r cyrff cyllido eglwysi sy'n darparu grantiau.

**www.ecclesiastical.com/fundraising**



## Gweminar cyllid gwyrdd ym Mehefin!

**Ymunwch â ni am weminar am ddim ar 4 Mehefin, o 10:30am tan 11:45am**, pan fyddwn yn eich helpu i gael gafael ar gyfleoedd i gael cyllid i gefnogi ymdrech eich eglwys i fod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd a'ch helpu ar eich taith i gyrraedd carbon sero net.

Mewn cydweithrediad â Philanthropy Company, Eglwys Lloegr, a'r Benefact Trust, byddwn yn edrych ar yr amrywiol opsiynau cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, yn ogystal ag yn rhoi gwybodaeth am sut i greu negeseuon i roi gwybod i ddarpar roddwyr am gynlluniau gwyrdd yr eglwys.

Bydd y weminar fyw yn para am 75 munud, gyda Chyflwyniad 45 munud, yna sesiwn hawl i holi o 30 munud, gyda thri o siaradwyr adnabyddus sy'n dod â'u harbenigedd a'u profiad i'r bwrdd: Nick Moore o'r Philanthropy Company, Helen Simkiss o Eglwys Lloegr a Helen Gray o'r Benefact Trust.

Mae'n addo i fod yn ddigwyddiad diddorol ac addysgiadol, gan gynnig gwybodaeth ac arweiniad ymarferol. Cofrestrwch nawr ar gyfer y weminar i Gael gafael ar Gyllid i wneud Cenhadaeth eich Eglwys yn fwy Gwyrdd.

# Buddsoddi mewn gwneud gwahaniaeth

Mae pryderon am faterion cymdeithasol, am ein planed a'r amgylchedd yn bethau y mae'r rhan fwyaf ohonom yn meddwl amdanynt bob dydd. Yn llawer rhy aml, gwelwn effeithiau niweidiol anwybyddu'r materion hyn yn y newyddion. Wrth i fwy ohonom fod yn awyddus i wneud mwy i helpu i frwydro yn erbyn y materion hyn, gwelwn ddiddordeb cynyddol gan bobl sydd eisiau buddsoddi'n foesegol yn unol â'u hegwyddorion.

## Beth yw buddsoddi moesegol?

Eglura **Richard Wood**, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyngor Ariannol Eglwysig: "Yn syml, mae buddsoddiadau moesegol yn caniatáu i bobl fuddsoddi heb aberthu eu hegwyddorion cymdeithasol, moesegol neu grefyddol a gwneud elw ar yr un pryd.



Richard Wood

Yn fwy diweddar, mae buddsoddiadau moesegol hefyd yn cynnwys cwmnïau sy'n awyddus i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a gwneud penderfyniadau cyfrifol a chynaliadwy wrth fuddsoddi."

Gellir sgrinio cronfeydd buddsoddi moesegol gan ddefnyddio meini prawf negyddol neu gadarnhaol. Ar gyfer cronfeydd sy'n cael eu sgrinio'n negyddol, bydd rheolwr y gronfa, er enghraifft, yn sgrinio buddsoddiadau i osgoi amrywiol weithgareddau yr ystyrir eu bod yn rhai niweidiol. Bydd y rhain fel arfer yn ymwneud â chwmnïau sy'n gwneud y mwyafrif o'u helw o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu arfau, baco neu alcohol a phrofi cynhyrchion cosmetig ar anifeiliaid.

Wrth ddefnyddio sgrinio cadarnhaol, mae rheolwyr y gronfa yn mynd ati i ddewis cwmnïau sy'n cael effaith gymdeithasol gadarnhaol neu sy'n buddsoddi mewn ffordd gynaliadwy a/neu gyfrifol. Bydd ganddynt, er enghraifft, arferion cyflogi a llywodraethu corfforaethol da, a byddant hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lle'r ydym yn byw.

I gael gwybod rhagor am sut allwch chi fuddsoddi yn unol â'ch egwyddorion moesegol, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cyngor Ariannol Eglwysig heddiw.

**0800 107 0190**
**getadvice@ecclesiastical.com**
**www.ecclesiastical.com/financial-advice**

**Sylwer:** Fe all gwerth buddsoddiadau syrthio a chodi ac mae'n bosibl ichi beidio â chael y swm rydych yn ei fuddsoddi yn ei ôl. Mae risg i'ch cyfalaf.

ecclesiastical
Financial Advisory Services



# Cynllunio angladd

Gall Ecclesiastical eich helpu i wneud darpariaeth ariannol ar gyfer eich angladd, gan ysgafnu baich eich anwyliaid a sicrhau eich bod yn cael eich dymuniadau. Mae telerau ac amodau'n weithredol – gweler y wefan am fanylion.

**0800 055 6503**
**info@epsfunerals.com**
**www.funeralplans.co.uk**



# Yswiriant car

Mae Yswiriant Moduron Eglwysig Ecclesiastical wedi cael ei deilwra'n arbennig ar gyfer y glerigiaeth ac mae'n cynnig manteision fel defnydd busnes, yswiriant ffenest flaen digyfyngiad a hyd at £500 ar gyfer nwyddau eglwysig yn y car. Mae telerau ac amodau yn weithredol.

I ddysgu rhagor am fanteision y polisi hwn, cysylltwch ag Ecclesiastical.

**0345 450 9396**
**www.ecclesiastical.com/car-insurance**

# Yswiriwch eich cartref gydag Ecclesiastical ac fe wnawn roi £130 i eglwys o'ch dewis



Un yn unig o'r ffyrdd rydyn ni'n rhoi'n ôl i'r gymuned ydy Trust130; am bob polisi yswiriant cartref uniongyrchol newydd a drefnir, rydyn ni'n cynnig rhoi £130 i gadeirlan neu eglwys Anglicanaidd o ddewis deiliad y polisi.[1]

Er 2017, mae Ecclesiastical wedi rhoi dros £500,000 i dros 2,500 o eglwysi yn y Deyrnas Unedig.

Fe wnaeth rhodd o £130 wir helpu Eglwys St Peter's yn Parwich. Dywedodd Trysorydd yr Eglwys, Stuart Chambers, wrthym:

> *Os ydych chi'n brin o bobl, mae'n waith caled cadw pob dim yn dwt. Mae gen i dractor bach torri gwair ond allwch chi ddim cyrraedd at y beddi ar hwnnw, felly maen nhw'n gallu edrych braidd yn flêr, ac mae hynny'n bechod.*

Mae ymweld â bedd un o'ch anwyliaid yn brofiad emosiynol iawn yn aml ac mae sicrhau bod rhywun yn gofalu am yr ardal yn help mawr i deulu a ffrindiau ar amser anodd. Gyda'r rhodd o £130, llwyddodd eglwys St Peter's i gadw'r fynwent yn edrych yn dwt a thaclus, drwy dalu dyn efo peiriant strimio.

Fe wnaeth rhodd arall gan Trust130 wneud gwahaniaeth mawr i Eglwys St Pancras yn Pennycross, Plymouth. Yn ystod gwyliau'r haf, Mae St Pancras yn ymuno â Provide Devon a Transforming Plymouth Together i rannu hamperau i oddeutu 50 o deuluoedd yn yr ardal leol. Darperir y bwyd drwy roddion ariannol, grantiau a stoc dros ben o archfarchnadoedd. Caiff ei gasglu, ei ddethol, ei bacio a'i ddosbarthu i deuluoedd diolchgar iawn.

## Yswiriant cartref heb ei ail

Yn ogystal â chefnogi eich eglwys, pan fyddwch yn trefnu polisi yswiriant cartref gydag Ecclesiastical rydych chi'n ymuno ag un o'r darparwyr yswiriant y mae pobl yn ymddiried fwyaf ynddo ac sydd â'r cwsmeriaid hapusaf.[2]

Roedden ni ar frig tabl cynghrair Fairer Finance eto yn ystod gwanwyn 2024 am yswiriant cartref am y 19fed tro yn olynol, gan gadw'r statws rhuban aur. Mae ein yswiriant ar gyfer adeiladau a chynnwys hefyd yn un o gynhyrchion Which? Best Buy a chafodd ei bleidleisio yn yswiriant cartref gorau yng Ngwobrau Money Mentor The Times yn 2023.[3]

## Gofynnwch am ddyfynbris yswiriant cartref

Mae Ecclesiastical yn yswiriwr arbenigol sy'n deall anghenion rhai sy'n gweithio yn yr eglwys, a dros yr eglwys. Mae ein polisi yn helpu i ddiogelu eich cartref ac yn rhoi ystyriaeth i'r dyletswyddau ychwanegol a wnewch i'r eglwys.

**0345 777 3322** am bris a dyfynnwch y cod **CHOPS24**
**www.ecclesiastical.com/homeinsurance**

[1] Mae telerau ac amodau yn weithredol – ewch i www.ecclesiastical.com/trust130-terms [2] www.fairerfinance.com/ratings/customer-experience-ratings/home-insurance [3] www.ecclesiastical.com/homeinsurance

ecclesiastical

**I gael mwy o wybodaeth ac i ddiweddaru eich manylion, cysylltwch â ni**
**Ffôn:** 0345 777 3322 **Ebost:** churchteam@ecclesiastical.com
**Facebook:** Ecclesiastical **Twitter:** @churchmatters

Darllenwch fi ar-lein

MIX Paper from responsible sources FSC® C008028

Ecclesiastical Insurance Office plc (EIO) Rhif Cofrestru 24869. Benefact Group plc Rhif Cofrestru 01718196. Benefact Trust Limited Rhif Cofrestru 1043742. Mae'r Benefact Trust Limited yn Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr gyda'r Rhif Cofrestru 263960. Ecclesiastical Financial Advisory Services Ltd (EFAS) Rhif Cofrestru 2046087.Ecclesiastical Planning Services Limited (EPSL) Rhif Cofrestru 2644860. South Essex Insurance Brokers Limited (SEIB) Rhif Cofrestru 06317314. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yn Lloegr yn Benefact House, 2000 Pioneer Avenue, Gloucester Business Park , Brockworth, Caerloyw, GL3 4AW, y Deyrnas Unedig. Awdurdodir EIO gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ac fe'i rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Rhif Cyfeirnod Cwmni 113848. Caiff EFAS, EPSL ac SEIB eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Rhifau Cyfeirnod Cwmni 126123 (EFAS), 958152 (EPSL) a 47947 (SEIB).

© Ecclesiastical Insurance Office plc 2024. Argraffwyd ar bapur o fforestydd cynaliadwy. 09/24

Proudly part of the BENEFACT GROUP

Rhifyn 25 | Hydref/Gaeaf 2024 | www.ecclesiastical.com/church

ecclesiastical

# materion eglwysig

Cylchlythyr gan Ecclesiastical i'n holl gwsmeriaid, aelodau a chyfeillion y PCC.



## Yn y rhifyn hwn

Gwaith adfer Cadeirlan Caerwrangon – tudalen 2
Yn falch o noddi Gwobrau Eglwysi Gwyrdd – 4
Problemau ariannol eglwysi gwledig – tudalen 8
Ein Rheolwyr Cymorth Eglwysi – tudalen 9

## Saith cam i godi arian yn llwyddiannus

Mae codi arian ar gyfer eglwysi yn fwy na dim ond ffordd o gael cymorth ariannol; mae'n fynegiant o feddyliau hael a chenhadaeth gyffredin. Drwy harneisio angerdd ac ymroddiad ei chynulleidfa a'r gymuned ehangach, gall eglwys drawsnewid cyfraniadau yn fentrau sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol a byd-eang. Beth bynnag yw maint y nod codi arian ar gyfer eich eglwys, bydd dilyn y broses saith cam hon yn eich helpu i fod yn drefnus a gwella eich siawns o lwyddo.

### Cam 1: Dywedwch eich stori

Bydd cyllidwyr o bob math eisiau gwybod pwy ydych chi a pham mae angen cyllid arnoch chi; byddwch yn glir iawn ynglŷn â'ch nod codi arian a'r effaith y bydd eich prosiect yn ei chael ar eich cymuned leol. Ystyriwch gynnwys awgrymiadau a darluniau o roddion, fel 'Gallai £1,000 ein galluogi i adnewyddu'r weirio yn ardal y plant'. Hefyd ymgysylltwch â chyllidwyr gydag uchafbwyntiau a llwyddiannau ar hyd y ffordd i annog ymgysylltiad pellach.

### Cam 2: Eich tîm

Drwy ddod â gweithgor codi arian at ei gilydd, gallwch ddefnyddio sgiliau a phrofiad gwirfoddolwyr cefnogol; sgiliau fel rheoli cyllidebau ac ysgrifennu copi da sydd eu hangen i ysbrydoli hyder ymhlith rhoddwyr. Gallwch gasglu syniadau fel gwneud yn siŵr eich bod yn diolch i gyllidwyr gyda deunydd cyfathrebu personol.

### Cam 3: Ymchwil

Crëwch un daenlen ganolog i gofnodi eich ymchwil am gyllidwyr mewn un lle. Bydd penawdau syml i'r colofnau fel: maint y grant a ddyfernir gan y cyllidwr, y broses ymgeisio, manylion cyswllt a dyddiadau cau, yn creu cronfa ddata hollbwysig ac yn eich galluogi i gael y wybodaeth ar flaenau eich bysedd!

### Cam 4: Nodi

Cadwch restr o ddarpar gyllidwyr o flaenoriaeth sydd â rhaglenni ariannu 'byw', y rhai sy'n cyfateb orau i'ch prosiectau a'r capasiti ar gyfer y grantiau mwyaf. Bydd hyn yn eich helpu i gadw ffocws i'ch helpu i gyrraedd eich nodau. Gofynnwch i'r rhai sydd fwyaf tebygol yn gyntaf, efallai y bydd cyllidwyr o'r gorffennol a 'chyfeillion' mewn busnesau lleol yn cael eu hysgogi gan y cyfle i ariannu elfennau allweddol o brosiectau.

### Cam 5: Cofrestru am gylchlythyron cyllidwyr

Mae gan nifer o gyllidwyr a mudiadau sy'n cefnogi codi arian gylchlythyron sydd â gwybodaeth gyfoes am y cyfleoedd sydd ar y gweill, newidiadau i raglenni ariannu a therfynau amser. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd hyn.

### Cam 6: Digwyddiadau

Gall cynllunio digwyddiad codi arian neu gyfres o ddigwyddiadau fod yn ffordd ddefnyddiol o godi proffil eich prosiect codi arian a denu rhoddion. Meddyliwch am baru thema eich digwyddiad â'ch anghenion ariannu.

### Cam 7: Rhwydweithio

Mae mynd allan i siarad â phobl yn ffordd bwysig o dynnu sylw at eich eglwys. Mae pobl yn cofio sgwrs wyneb yn wyneb yn fwy nag e-bost annisgwyl neu alwad ddiwahoddiad, ac mae'r cysylltiadau personol hyn yn amhrisiadwy yn eich ymdrechion codi arian.

**Peidiwch ag anghofio,** mae ein hwb codi arian ar gyfer eglwysi yn llawn cymorth hawdd eu defnyddio, arweiniad ac adnoddau i'ch helpu chi a'ch eglwys gyda'ch taith codi arian, dysgwch fwy fan hyn:

**ecclesiastical.com/church/fundraising**

Yn cynnwys deunydd hyrwyddo

# Croeso cynnes i *Materion Eglwysig*



Wrth i'r dail droi a'r aer oeri, cawn ein tywys at yr hydref, y tymor o baratoi; mae'r cynaeafau wedi'u cywain, y ffrwythau'n cael eu cadw ac, wrth i'r nosweithiau dyfu'n hirach, rydyn ni'n agosáu at y gaeaf.

Yn Ecclesiastical Insurance, roeddem hefyd yn meddwl am baratoi ar gyfer y dyfodol wrth i ni ysgrifennu'r rhifyn hwn o *Materion Eglwysig*.

Mae ein prif stori, 'Saith Cam at Godi Arian yn Llwyddiannus', yn llawn awgrymiadau a chynghorion a all eich helpu i godi arian i'ch eglwys. Yn y tudalennau canol, gallwch ddarllen am rôl Ecclesiastical yn y Gwobrau Eglwysi Gwyrdd a sut mae eglwysi yn gweithio i helpu i godi ymwybyddiaeth, a hyd yn oed cyfyngu, ar effeithiau newid hinsawdd.

Rydyn ni mor falch o fod yn rhan o'r Benefact Group ac i weld yn uniongyrchol beth mae perchennog elusennol y Grŵp, y Benefact Trust, yn ei wneud yn y gymuned, gan gynnwys ein rhaglen grantiau a'r gyfres o bodlediadau 'Beyond Funding' a lansiwyd yn ddiweddar – mwy am y rheini ar dudalen 10.

Ar dudalen 9, gallwch ddysgu am Joseph a Heather, ein Rheolwyr Cymorth Eglwysi, a'r rôl y gallan nhw ei chwarae i'ch helpu i reoli eich eglwys!

Fel y byddech yn ei ddisgwyl wrth eich darparwr yswiriant, mae gennym erthyglau hefyd am sut gallwch gynnal parti tân gwyllt mwy diogel a gwybodaeth am sut gallwch geisio lliniaru'r perygl o lifogydd yn eich eglwys, ac mae gennym wybodaeth ar sut gallwch yswirio eich cartref gyda ni ar y dudalen gefn.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen *Materion Eglwysig* ac fel arfer, cysylltwch gydag unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau.

Dymuniadau gorau,



**Mark Cowdell**
Pennaeth Gweithrediadau Cwsmeriaid





# Ymdrechion adfer Cadeirlan Caerwrangon ar ôl Storm Arwen

Chwaraeodd Ecclesiastical rôl hanfodol wrth gefnogi'r ymdrechion adfer yng Nghadeirlan Caerwrangon yn sgil y difrod a achoswyd gan Storm Arwen. Rhwygodd y gwyntoedd enbyd ran o binacl tŵr y Gadeirlan, gan arwain at ddifrod strwythurol sylweddol. Drwy ymdrechion ar y cyd, llwyddodd crefftwyr medrus i adfer y Gadeirlan.

Roedd y gwaith maen a ddisgynnodd, a oedd yn pwyso tua 0.5 tunnell, wedi disgyn o uchder o dros 30 metr. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau diogelwch yr adeilad a'r bobl, a rhoddwyd mesurau dros dro ar waith i amddiffyn yr adeilad rhag difrod pellach.

Roedd gwarchod hanes y Gadeirlan yn hollbwysig i ni yn ystod y broses adfer. Arweiniodd trafodaethau helaeth gyda pheirianwyr strwythurol at adeiladu ffrâm ddur parhaol o fewn gwagle'r to i gynnal y nenfwd carreg cromennog. Roedd crogfachau metel a phlât metel gwastad yn atgyfnerthu'r gwaith maen, i sicrhau cywirdeb strwythurol.

Cafodd yr ymdrechion eu hymestyn y tu hwnt i'r ardal a ddifrodwyd er mwyn gwarchod organ y Gadeirlan. Cafodd 1,500 o bibau'r organ a effeithiwyd gan ddwst a malurion, eu tynnu'n ofalus a'u glanhau oddi ar y safle. Cafwyd organ ddigidol er mwyn gallu parhau â'r gwasanaethau. Ar ôl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau, cafodd pibau'r organ eu hail-osod.

Ym mis Mawrth 2022, ail-agorodd y cwîr, sef carreg filltir bwysig. Ail-ddechreuodd y Gadeirlan ei gweithgareddau, gan gynnwys cynnal seremoni raddio Cymrodoriaeth Gweithdy'r Gadeirlan. Mae'r rhaglen hon, a noddwyd gan Ecclesiastical, yn pwysleisio pwysigrwydd cadw sgiliau arbenigol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar adeg y gwaith adfer, nythodd hebogiaid ar y meindwr yn 2023. Cefnogwyd y Gadeirlan i oedi'r broses o adfer y pinacl nes bod y cywion wedi'u magu'n llawn. Roedd gwe-gamera byw yn gyfle i bobl weld y cywion yn tyfu. Enwyd yr hebogiaid yn Peggy, Peter, Penguin, Penelope, Percie a Mr Lazy.

Dechreuodd y gwaith o gerfio'r pinacl newydd tra'n aros i'r hebogiaid bach dyfu. Cafodd y pinacl a ddifrodwyd ei ddisodli gan un newydd a grefftiwyd gan seiri maen y Gadeirlan. Sicrhawyd bod treftadaeth bensaernïol y Gadeirlan yn cael ei gwarchod, drwy ddefnyddio tywodfaen coch o chwarel Hollington yn Swydd Stafford.

Cwblhawyd y gwaith mewn seremoni 'osod' draddodiad hynafol, lle gosodwyd y darn olaf o garreg, a bendithiodd y Deon y gwaith maen. Cynhaliwyd y seremoni union ddwy flynedd i'r diwrnod, 27 Tachwedd 2023, ers i'r difrod ddigwydd gyntaf ar 27 Tachwedd 2021.

Dywedodd y Deon **Stephen Edwards** o Gadeirlan Caerwrangon,

> *" Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Ecclesiastical am eu cefnogaeth o'r funud y torrodd y newyddion a thrwy gydol yr holl daith. Mae cymhlethdodau'r prosiect wedi bod yn her ond mae cyngor, sgil, ac arbenigedd Ecclesiastical a'n holl bartneriaid wedi sicrhau gwaith gwych ar brosiect o arwyddocâd aruthrol. Gan ddelio â hebogiaid, rhaglennu, polisïau a phobl gyda pherffeithrwydd, mae'r pinacl gorffenedig yn sefyll yn uchel fel tyst i'r llu o weithwyr proffesiynol a chefnogwyr medrus. "*





Mae llwyddiant y broses o adfer Cadeirlan Caerwrangon yn brawf o'n hymdrechion ar y cyd â'r Gadeirlan. Mae ein hymrwymiad i warchod treftadaeth a chefnogi mentrau fel y rhaglen CWF wedi chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau'r gwaith o adfer y Gadeirlan. Mae Cadeirlan Caerwrangon yn parhau i ysbrydoli a gwasanaethu fel symbol o wytnwch, diolch i ymroddiad pawb.

I ddarllen mwy am yr astudiaeth achos hon, ewch i:

**ecclesiastical.com/worcestercathedral**



# Llinell Gymorth Risg

Mae ein Llinell Gymorth Risg ar gael rhwng **9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** (ac eithrio Gwyliau Banc). Bydd eich ymholiad yn cael ei drosglwyddo'n gyflym i Syrfëwr neu Ymgynghorydd Rheoli Risg arbenigol, a fydd yn ceisio cysylltu â chi am y tro cyntaf o fewn 24 awr. Byddan nhw'n eich cefnogi a'ch cyfeirio at adnoddau defnyddiol; ein nod yw datrys pob ymholiad o fewn pum diwrnod gwaith.

**0345 600 7531**
**risk.advice@ecclesiastical.com**



# Sut i wneud hawliad

Os buoch yn ddigon anffodus i orfod gwneud hawliad, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib, gallwch gysylltu â ni 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos gyda'ch hawliad.

**0345 603 8381**
**claims@ecclesiastical.com**
**ecclesiastical.com/claims/claim-online**

**95%**
**Yn fodlon â'u hawliadau**[1]

[1] Canlyniadau arolwg barn canol blwyddyn Ecclesiastical 2024; maint sampl o 201 o gwsmeriaid.

# E-newyddion misol am ddim

Hoffech chi gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr misol? Mae'n rhoi gwybodaeth am grantiau, canllawiau rheoli risg amserol, deunydd codi arian a llawer o awgrymiadau defnyddiol eraill ar gyfer eich eglwys – yn syth i'ch mewnflwch.Mae nifer o'n cwsmeriaid wedi dewis derbyn hwn a gobeithiwn yr hoffech chi ymuno â nhw. Mae croeso i chi basio'r ddolen gofrestru ymlaen at unrhyw un arall yng nghymuned eich eglwys a fyddai'n hoffi cael copi. Sganiwch y cod QR neu cofrestrwch yn:

**ecclesiastical.com/signup**

# Yn falch o noddi Gwobrau'r Eglwysi Gwyrdd





Stuart Blackie

Mae enillwyr Gwobrau'r Eglwysi Gwyrdd y Church Times ar gyfer 2024 ar fin cael eu cyhoeddi gan banel o feirniaid sy'n cynnwys **Stuart Blackie** o gwmni Yswiriant Ecclesiastical.

Ecclesiastical yw prif noddwr y gwobrau, sy'n cydnabod ymdrechion ysgolion, ysgolion eglwysig a mudiadau Cristnogol eraill a chymunedau o bob ffydd i ofalu am y greadigaeth, yng nghanol yr argyfwng amgylcheddol cynyddol.

Cânt eu trefnu ar y cyd gyda rhaglen amgylcheddol Eglwys Loegr, yr Eglwys Fethodistaidd, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chynulleidfa Eco yr Alban.

Stuart – Ymunodd Prif Syrfëwr Rheoli Risg Ecclesiastical â'r cadeirydd Dr Ruth Valerio, Esgob Norwich, y Gwir Barchedig Graham Usher sef esgob arweiniol Eglwys Loegr ar yr amgylchedd, a nifer o feirniaid eraill yn y dasg anodd o ddewis enillwyr.

"Roedd yn anrhydedd go iawn i Ecclesiastical fod yn brif noddwr y gwobrau," dywedodd Stuart. "Fel cwmni, rydyn ni'n ymroddedig i greu effaith amgylcheddol bositif, sy'n cyd-fynd â'n hanes o warchod eglwysi am dros 135 mlynedd. Mae'n amlwg bod angen cymryd camau i helpu i ddiogelu'r adeiladau rhyfeddol hyn rhag newid hinsawdd am genedlaethau i ddod felly roedd yn fraint fawr i mi gael fy ngwahodd i ymuno â phanel beirniadu mor nodedig, ac yn bleser gweithio gyda'r Church Times a'r beirniaid a'r noddwyr eraill.



"Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref, felly y cyfan y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw bod y safon yn rhyfeddol o uchel. Mae'n deg dweud bod pob un ohonom ni wedi gweld y dasg o ddewis rhwng y llu o geisiadau gwych yn hynod o anodd – ond ar yr un pryd, cynigiodd gipolwg ysbrydoledig a hynod ddiddorol i ni am yr ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd yn ein cymunedau i helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

"Does dim amheuaeth y bydd newid hinsawdd yn parhau i fod yn broblem fawr – rydyn ni wedi gweld drosom ein hunain yr effaith ddramatig y mae'n ei chael ar eglwysi ac adeiladau cysylltiedig. Er enghraifft, rydyn ni wedi gweld eglwysi yn wynebu llifogydd lle nad ydyn nhw erioed wedi cael llifogydd o'r blaen. Ond mae'n mynd ymhell y tu hwnt i hynny. Wrth i ni brofi mwy o stormydd a gwyntoedd cryfion, mae'r rhain yn cyflwyno risgiau uwch i feindyrau tal a thyrau a adeiladwyd ganrifoedd yn ôl, sydd angen eu cynnal a'u cadw'n ddiogel, ac i doeau sydd bellach yn fwy agored i niwed stormydd, gan arwain at ddŵr yn mynd i mewn.



"Mae'r un peth yn wir am goed yn ein heglwysi – mae'n ddigon posib i dderwen 300 oed fod yn agos at 40 metr o uchder, a gall storm fod yn ddinistriol, yn enwedig pan fo'r coed yn llawn dail. Mae'r potensial am ddifrod difrifol i eiddo ac anafiadau i bobl gerllaw yn amlwg.

"Mae newidiadau tymhorol mwy dramatig yn debygol o arwain at amodau rhewi-dadmer mwy rheolaidd, a all achosi difrod i waith maen. Gall hyn yn ei dro hefyd arwain at ddŵr yn mynd i mewn i'r adeilad. Ceir sgil-effeithiau i damprwydd mewn eglwysi, o ran pethau fel gwresogi ac anadladwyedd y strwythur.

"Felly ar y cyfan, mae'n ddarlun pryderus iawn, ac yn un y mae Gwobrau'r Eglwysi Gwyrdd yn wirioneddol helpu i godi ymwybyddiaeth.

"Ond mae hefyd yn bwysig iawn pwysleisio bod nifer o gamau positif yn cael eu cymryd. Cafodd hyn ei grisialu'n glir ym mhob un o'r cynlluniau, gan gyfleu'r neges optimistaidd nad ydych chi ar eich pen eich hun, wrth i eglwysi ar hyd a lled y wlad ddod o hyd i ffyrdd arloesol ac ysbrydoledig o frwydro yn erbyn newid hinsawdd."

Cafwyd saith categori, pob un â gwobr o £1,000 i'r enillydd, gan ystyried popeth o brosiectau adeiladu newydd neu brosiectau adnewyddu mawr sy'n lleihau ôl troed carbon yn sylweddol, i fannau syml ac ysbrydoledig a grëwyd ar gyfer bywyd gwyllt ac i annog bioamrywiaeth..



Bydd eglwysi, ysgolion, neu grwpiau eraill sy'n arwain ym maes gweithredu amgylcheddol er budd y gymuned ehangach yn cael eu cydnabod, felly hefyd prosiectau isel o ran cost sy'n cael eu hystyried fel llwyddiant wrth gyflawni llawer iawn gyda gwariant ariannol cyfyngedig.

Mae'r wobr 'Pencampwyr Gwyrdd' wedi'i hanelu at unigolion sydd wedi gwneud gwahaniaeth amgylcheddol sylweddol drwy eu hymdrechion unigol eu hunain, ac roedd categorïau hefyd ar gyfer hyfforddiant ac addysg a phrosiectau 'iechyd gwyrdd', yn llwyddiannus wrth wneud cysylltiad gweithredol rhwng ffydd, natur ac iechyd.

"Un o'r pethau allweddol a ddysgais oedd y gallwn ni i gyd gyfrannu," dywedodd Stuart. "Wrth gwrs, mae prosiectau cyfalaf mawr yn tueddu i wneud y penawdau, ond does dim amheuaeth y gall wardeniaid gwirfoddol eglwysi, sydd eisoes yn rhoi llawer o'u hamser rhydd, heb fawr o arian yn y coffrau, gyflawni llawer iawn gyda'i gilydd.

"Rwy'n meddwl y bydd y gwobrau hyn yn ysbrydoliaeth fawr - ffordd o ddangos y gall, dyweder, eglwys fach â chynulleidfa fach sy'n gwneud newid bach, nad yw'n costio fawr ddim, chwarae rhan gwbl hanfodol yn y darlun ehangach. Mae'r ffaith bod miloedd o eglwysi a chynulleidfaoedd yn gweithredu gyda'i gilydd, yn datblygu ac yn rhannu a gweithredu syniadau newydd yn eu heglwysi a'u cymunedau, yn rym pwerus iawn."

## Dyma'r drydedd flwyddyn i'r gwobrau gael eu cynnal, ar ôl 2007 a 2017

Yn 2007, roedd y prosiectau dan sylw yn cynnwys gwresogi arloesol o'r ddaear, cynllun i ddod â rhandiroedd i fynwent, a 'bws cerdded' i blant ysgol a ddatblygwyd i leihau teithiau mewn car, ac o ganlyniad, lleihau allyriadau yn y broses hefyd.

Roedd enillwyr 2017 yn cynnwys prosiect 'garddio guerrilla' enfawr i fil o bobl ifanc, a neuadd eglwys newydd a adeiladwyd o fêls gwair.

Cadwch lygad ar y Church Times i weld pwy enillodd Gwobrau'r Eglwysi Gwyrdd eleni! Os ydych chi eisiau dod o hyd i syniadau eraill i helpu eich eglwys 'fynd yn wyrdd' – dilynwch y ddolen hon:

**ecclesiastical.com/documents/green-made-simple-guide.pdf**

> *"Ddechrau 2024, rhoddodd perchennog elusennol y Grŵp, Benefact Trust, £1.5m dros ddwy flynedd i gefnogi prosiect 'Demonstrator Churches' Eglwys Loegr, gan helpu 60 o eglwysi i gyrraedd sero net (neu'n agos) erbyn diwedd 2025. Bydd y 60 o eglwysi hyn yn lasbrint i ysbrydoli eglwysi eraill yn eu hymdrechion gwyrdd eu hunain."*

> *"Yn 2023, dyfarnwyd 40% o Grantiau Gwella Adeiladau'r Benefact Trust i brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar waith adeiladu sy'n amgylcheddol gynaliadwy."*



# Darllenwch fi ar-lein

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddarllen y cylchlythyr hwn ar-lein a lawrlwytho copi y gallwch ei ddarllen ar eich ffôn neu lechen? Gallech rannu copi ar-lein gydag aelodau eich eglwys a ffrindiau a theulu, i arbed papur!

Sganiwch y cod QR neu ewch i:

**ecclesiastical.com/churchmatters**

# Cymorth mis ar ôl mis!

Oherwydd y galw, rydyn ni eto wedi cynhyrchu calendr hawdd ei weld, er mwyn eich helpu i gynllunio gweithgareddau cynnal a chadw gydol y flwyddyn er mwyn i chi allu gofalu am eich eglwys a'ch plwyfolion. O pryd i sicrhau bod eich pibellau dŵr wedi'u lapio'n iawn i sut i gael Nadolig mwy diogel a phob dim arall, gall Ecclesiastical helpu. Dewch o hyd i'ch copi chi o'r calendr yn y pecyn hwn!

**ecclesiastical.com/documents/church-risk-calendar.pdf**

# Byddem wrth ein bodd yn clywed wrthych chi

Rydyn ni'n croesawu eich barn ar *Materion Eglwysig* a hoffwn gysylltu â chi i weld a yw'r cylchlythyr hwn yn bodloni eich disgwyliadau. Os oes gennych amser, sganiwch y cod QR i gwblhau holiadur byr; dim ond munud neu ddwy fydd yn ei gymryd a bydd yn ein helpu ni gyda'ch rhifyn nesaf. **Diolch!**



# Dŵr yn dianc a difrod o lifogydd

Gall achosion o ddŵr yn dianc, fel gollyngiadau o danc neu bibell wedi byrstio achosi difrod sylweddol i eiddo. Ar wahân i gostau atgyweirio, sy'n gallu bod yn gostus, gall darfu'n sylweddol hefyd wrth i chi geisio dod o hyd i lety dros dro ar gyfer gwasanaethau eglwysig, neu'n waeth byth, orfod eu canslo – ac mewn adeiladau hanesyddol, gall difrod fod yn anadferadwy weithiau.

Gallwn i gyd gytuno ei bod yn well, yn gyffredinol, i beidio â chael unrhyw ddifrod yn y lle cyntaf, ac fel warden neu warcheidwad eglwys, mae deall goblygiadau dŵr yn dianc a sut i liniaru'r risg yn hollbwysig.

Rydyn ni'n cynnig cymorth gwerthfawr i reoli risgiau a byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod gennych yswiriant digonol pe bai'r gwaethaf yn digwydd.

## Prif achosion dŵr yn dianc

Mae nifer o ffactorau a all gyfrannu at achosion o ddŵr yn dianc:

**Tywydd oer:** Os nad ydynt wedi'u lagio neu eu hinswleiddio'n iawn, gall y dŵr mewn pibellau gwresogi a phibellau dŵr ehangu yn ystod y gaeaf wrth iddyn nhw rewi, gan achosi i'r pibellau fyrstio ac yna gollwng wrth i'r dŵr ddadmer. Gall hyn achosi difrod dŵr sylweddol.

**Traul:** Gall pibellau ac offer sy'n heneiddio ddatblygu gollyngiadau dros amser.

**Gosod offer yn wael:** Gall systemau neu offer plymio sydd wedi'u gosod yn wael fethu, gan arwain at ddŵr yn dianc.

**Esgeulustod:** Gall diffyg cynnal a chadw rheolaidd arwain at faterion disylw sy'n achosi gollyngiadau yn y pen draw, fel gorlif sy'n diferu'n gyson.

## Gall lefelau tarfu fod yn uchel

Fel y soniwyd yn gynharach, mae goblygiadau achos o ddŵr yn gollwng yn mynd ymhellach na difrod ffisegol.

**Dadleoli:** Gall difrod dŵr difrifol olygu na all rhannau o'ch adeilad gael eu defnyddio, sy'n golygu symud dros dro.



**Amser ac ymdrech:** Tra bydd ein tîm hawliadau yn gweithio i sicrhau bod y broses mor ddi-boen ac mor llyfn â phosib, mae yna agweddau a fydd yn llyncu amser pobl y gellir ei ddefnyddio'n well mewn mannau eraill

**Colli eiddo gwerthfawr:** Gall difrod dŵr ddinistrio eitemau gwerthfawr a sentimental, gan ychwanegu trallod emosiynol at yr heriau ymarferol.



## Beth allaf ei wneud i helpu i leihau'r perygl o lifogydd?

**Cynnal a chadw rheolaidd:** Trefnwch wiriadau arferol ar gyfer systemau plymio a gwresogi. Rhowch sylw i unrhyw arwyddion o draul yn gyflym.

**Inswleiddio:** Inswleiddiwch bibellau'n iawn, yn enwedig mewn mannau heb eu gwresogi, i atal rhewi yn ystod tywydd oer.

**Gosod dyfeisiau canfod gollyngiadau:** Gall systemau canfod gollyngiadau modern eich rhybuddio am broblemau posib cyn iddyn nhw waethygu.

**Gwaith gosod proffesiynol:** Sicrhewch fod yr holl osodiadau plymio a gwresogi yn cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol cymwys.

**Archwiliwch eich eglwys yn rheolaidd:** Rydyn ni'n deall nad ydych yn defnyddio'r eglwys bob dydd neu bob wythnos hyd yn oed, felly mae'n werth chweil, yn enwedig yn y gaeaf, dim ond i weld bod popeth yn iawn.

## Yswiriant

Mae deall eich yswiriant yn hanfodol. Mae Ecclesiastical yn cynnig polisïau cynhwysfawr sy'n ymdrin ag achosion o ollwng dŵr a bydd angen i chi ystyried agweddau allweddol fel:

**Terfynau'r yswiriant:** Byddwch yn ymwybodol o'r uchafswm y bydd eich polisi yn ei dalu am atgyweiriadau difrod dŵr.

**Eithriadau:** Deall unrhyw eithriadau a all fod yn berthnasol, fel difrod o ganlyniad i esgeulustod neu ddiffyg cynnal a chadw.

**Y broses hawlio:** Ymgyfarwyddwch â'r broses hawlio a ble yn eich dogfen bolisi y gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn ar gyfer ein Tîm Hawliadau y gallwch ei ffonio os bydd dŵr yn gollwng, i sicrhau ymateb llyfn ac effeithlon os bydd achos.

## Delio ag achos o ddŵr yn gollwng

Os byddwch chi'n profi achos o ddŵr yn dianc, mae gweithredu'n gyflym yn hanfodol. Dilynwch y camau hyn:



**Trowch y cyflenwad dŵr i ffwrdd:** Caewch y brif falf ddŵr ar unwaith i atal difrod pellach – mae'n werth labelu'r stopfalf yn glir fel y gellir dod o hyd iddo mewn argyfwng yn ogystal â gadael i bobl allweddol o fewn yr eglwys wybod ei leoliad.

**Lliniaru'r golled:** Ceisiwch dynnu gwrthrychau cludadwy o leoliad unrhyw ddŵr, yn enwedig y rhai a allai gael eu difrodi gan ddŵr.

**Cysylltwch â'ch yswiriwr:** Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib i ddechrau'r broses hawlio.

**0345 600 7531**
**risk.advice@ecclesiastical.com**
**ecclesiastical.com/risk-management/water-leaks**



# Meddwl cael arddangosfa tân gwyllt?

Mae arddangosfeydd tân gwyllt yn dod yn fwyfwy poblogaidd mewn dathliadau, yn enwedig mewn digwyddiadau a gwyliau arwyddocaol. Er eu bod yn dod â llawenydd a sbloets, mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r risgiau y gallan nhw eu hachosi. Mae rheolaeth briodol yn hanfodol i sicrhau diogelwch y cyfranogwyr a'r gwylwyr. Rydyn ni'n darparu canllawiau penodol ar reoli'r risgiau hyn yn effeithiol, y gallwch ddod o hyd iddyn nhw yn y ddolen isod.

Mae tân gwyllt yn cael eu cynhyrchu drwy ddefnyddio ffrwydron a deunyddiau pyrotechnig, felly gall tân gwyllt sy'n cael eu camdanio neu eu trin yn amhriodol arwain at danau damweiniol, sy'n achosi difrod helaeth i eiddo. Mae'n bwysig iawn cael diffoddwyr tân ac offer ymladd tân arall ar gael yn rhwydd.

Er mor brydferth y maen nhw'n edrych yn nhywyllwch y nos, pan gânt eu cam-drin, gall tân gwyllt hefyd achosi anafiadau personol, gan gynnwys llosgiadau a hyd yn oed trawma i'r llygaid. Gall sicrhau bod tân gwyllt yn cael eu trin gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig a bod gwylwyr yn cael eu cadw o bellter diogel yn lleihau'r risg o anafiadau yn sylweddol.

Gall y malurion a'r gweddillion cemegol sy'n cael eu gadael ar ôl halogi ffynonellau pridd a dŵr. Yn ogystal, gall y synau uchel darfu ar fywyd gwyllt ac anifeiliaid anwes. Gall dewis tân gwyllt ecogyfeillgar a sicrhau proses lanhau briodol liniaru rhai o'r effeithiau hyn.

## Rhywbeth arall i feddwl amdano...

Yn ddelfrydol, ar gyfer arddangosfeydd mwy, gallech gael gweithwyr proffesiynol trwyddedig i reoli eich digwyddiad, sydd wedi'u hyfforddi i drin a chynnau tân gwyllt yn ddiogel. Dylent gynnal asesiad risg trylwyr cyn y digwyddiad, gan ystyried y tywydd, cynllun yr ardal arddangos ac agosrwydd y gwylwyr.

Ar gyfer arddangosfeydd llai, y gallech eu trefnu eich hun, gall ein cyngor fod yn ddefnyddiol iawn – ac mae cael cynllun argyfwng yn ei le yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cael pecynnau cymorth cyntaf, sefydlu protocolau cyfathrebu ar gyfer argyfyngau, a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn rhag ofn y bydd digwyddiad.

Gall cynllunio priodol sicrhau digwyddiad mwy diogel i bawb!

**0345 600 7531**
**risk.advice@ecclesiastical.com**
**ecclesiastical.com/risk-management/bonfire-and-firework-safety**

# Problemau arian parod i eglwysi gwledig

Mae eglwysi gwledig yn wynebu problem ariannu oherwydd diffyg cysylltedd rhyngrwyd a banciau'n cau, datgelodd ein harolwg o eglwysi.[1]

Canfu ein harolwg diweddar fod bron i draean (32%) o eglwysi gwledig nad ydynt yn defnyddio rhoddion digidol yn beio diffyg cysylltedd rhyngrwyd yn eu hardal, gan eu gadael yn ddibynnol ar roddion arian parod. Mae diffyg cysylltiad rhyngrwyd dibynadwy yn her i eglwysi gwledig, sy'n cael ei waethygu ymhellach gan rwydweithiau ffonau symudol yn diffodd eu rhwydweithiau 3G erbyn 2025.



Cyfrannu'n ddigyffwrdd

Yn gyffredinol, mae tri o bob pump (60%) o eglwysi yn y DU yn dweud eu bod yn derbyn rhoddion digidol – gyda thri chwarter (76%) o'r rheini'n derbyn rhoddion digyffwrdd, a dwy ran o dair (65%) yn cymryd rhoddion ar-lein. Mewn lleoliadau gwledig, mae rhoddion digidol yn gostwng i ychydig dros hanner (55%) o eglwysi.

Mae nifer anghymesur o fanciau'n cau mewn ardaloedd gwledig yn her arall i eglwysi. Mae data'r llywodraeth yn datgelu cwymp o 44% yn nifer y banciau yn y DU rhwng 2010 a 2022 gyda banciau mawr wedi cyhoeddi cau mwy o fanciau.

Dywedodd bron pob un (95%) o eglwysi gwledig eu bod yn cymryd rhoddion arian parod o'i gymharu â llai na thri chwarter (70%) mewn eglwysi yng nghanol dinasoedd. Ond, gyda'r defnydd o arian parod yn lleihau, mae eglwysi mewn ardaloedd gwledig yn cael mwy o anhawster creu arian hollbwysig na'u cyfoedion trefol.

Er gwaethaf yr heriau hyn sy'n dod i'r amlwg, pan ofynnwyd iddyn nhw a oedd ganddyn nhw gynllun codi arian ar waith dywedodd bron i hanner (48%) yr eglwysi nad oedd, gyda dros hanner (54%) mewn ardaloedd gwledig yn dweud nad oedd ganddyn nhw.



Helen Richards

Pan ofynnwyd pam, ymatebodd hanner i ddweud nad oedd angen cynllun ffurfiol arnyn nhw a dywedodd dros un ymhob deg (13%) nad oedd neb eisiau cymryd cyfrifoldeb.

Dywedodd **Helen Richards**, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau Eglwysi: "Wrth i'n harferion bancio newid dros y blynyddoedd, mae eglwysi wedi gorfod addasu i sicrhau eu bod yn cadw i fyny. Trwy gofleidio rhoddion digidol, gallan nhw ddiogelu eu hincwm, sy'n newyddion gwych – gan helpu i warchod yr eglwys nawr ac i'r dyfodol.

"Serch hynny, mae heriau o'n blaenau, yn enwedig y broblem sy'n ymwneud â chysylltedd gwledig a chau banciau. Mae'n bryder bod cymaint o ymatebwyr i'n harolwg wedi dweud nad oes ganddyn nhw gynllun codi arian ar waith. O safbwynt gwytnwch yr eglwys yn y dyfodol mae hyn yn eu gwneud yn agored i risgiau – fel colli un ffrwd refeniw mewn rhoddion arian parod."

> *"Lansiwyd ein hwb codi arian eglwysig i roi adnoddau a chyngor i eglwysi a'u gwirfoddolwyr ar sut i godi arian yn effeithiol – boed hynny ar gyfer prosiectau mawr y maen nhw'n gweithio arnyn nhw neu i helpu gyda chostau rhedeg. Gall cynllun codi arian helpu i ysgogi cefnogaeth o fewn y gynulleidfa a'r gymuned, gan roi targedau clir i'r gymuned weithio tuag atyn nhw, a byddem yn annog eglwysi i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'w helpu."*

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:

**ecclesiastical.com/fundraising**

Canfu ein hymchwil hefyd mai'r math mwyaf poblogaidd o roddion i eglwysi oedd drwy ddebyd uniongyrchol misol (94%) gyda chyfraniadau arian parod yn ail agos (91%) ac yna trosglwyddiadau banc (77%).

[1] Arolwg Ecclesiastical



# Cyflwyno ein Rheolwyr Cymorth Eglwysi

Yn Ecclesiastical, rydyn ni'n ymwybodol iawn o'r gofynion cymhleth sydd weithiau'n gysylltiedig â rheoli eich eglwys – ac os gallwn helpu, rydyn ni eisiau gwneud hynny! Mae ein Rheolwyr Cymorth Eglwysi yn cael eu darparu heb unrhyw gost ychwanegol ac maen nhw yma i helpu. Gadewch i ni ddysgu ychydig mwy amdanyn nhw.



## Joseph – cwmpasu'r de

Dewch i gwrdd â **Joseph Davies** – ein Rheolwr Cymorth Eglwysi newydd ar gyfer hanner deheuol y DU, o ganolbarth Cymru hyd at Norwich.



Joseph Davies

"Rydw i'n gyffrous iawn i fod yn ymuno ag Ecclesiastical," dywedodd Joseph, sy'n briod, ac yn byw ar arfordir Dorset. "Fel Rheolwr Cymorth Eglwysi, byddaf yn arwain sesiynau hyfforddi grŵp ar-lein ac yn bersonol, gan roi cyflwyniadau ar bopeth o hanfodion yswiriant i reoli risgiau a byddaf yn gallu mynd â chi drwy ein hadnoddau ar-lein cynhwysfawr i'ch helpu i nodi'r hyn a allai fod o gymorth i chi a'ch eglwys."

Mae Joseph yn rhan fawr o deulu'r eglwys – offeiriad plwyf oedd ei dad, ei fam yn gaplan ysbyty a chafodd ei wraig ei ordeinio'n ddiweddar fel ciwrad, a threuliodd yntau naw mlynedd fel ystlyswr Cadeirlannau Caersallog ac Ely.

Yn ei amser sbâr, mae Joseph wrth ei fodd yn adeiladu awyrennau bach Airfix, proses fanwl sy'n gofyn am amynedd, ymroddiad, a sylw i fanylion – rhinweddau a fydd yn ddefnyddiol yn ei rôl newydd.

"Rwy'n gobeithio bod fy nghefndir yn dangos bod gen i ddealltwriaeth dda o'r mathau o faterion sy'n wynebu'r clerigwyr a'r gynulleidfa," dywedodd. "Rwy'n gwybod pa mor gymhleth a dryslyd y gall yswiriant ymddangos weithiau, ac rwy'n edrych ymlaen at fynd allan a helpu i symleiddio'r maes ac arwain ein cwsmeriaid drwyddo.

## Heather – cwmpasu'r gogledd

Mae rhan ogleddol y DU yn parhau i gael ei chefnogi gan **Heather Ford**. Mae Heather wedi bod gydag Ecclesiastical ers bron i bum mlynedd ac wrth ei bodd gyda'i rôl fel Rheolwr Cymorth Eglwysi.

Mae Heather – saethwraig bwa amatur sy'n 'brysur iawn' diolch i bedwar o wyrion a'i phwdl bach – yn byw yn Wensleydale, Swydd Efrog, gyda'i phartner.

Mae'n gyfrifol am 22 o esgobaethau yng Nghymru a Lloegr. Fel wyneb cyhoeddus Ecclesiastical, mae hi'n cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i'n cwsmeriaid ar amrywiaeth o bynciau, yn ogystal â'u cyfeirio at ein hadnoddau ehangach.

"Rydw i yma i gefnogi eglwysi gyda'u hanghenion yswiriant," dywedodd Heather, "a darparu canllawiau ychwanegol ar bethau



Heather Ford

fel rheoli risg, codi arian a delio â'r cyfrifoldebau yn sgil deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

"Ond i fi, rhan fwyaf fy swydd yw ymgysylltu ag eglwysi a'u helpu i weld nad yw yswiriant wedi'i gynllunio i roi rhwystrau yn eu ffordd ond i'w galluogi i gyflawni eu gweinidogaeth ac i ffynnu.

"Rwy'n cwrdd â phobl sy'n poeni am bethau fel agor drysau'r eglwys y tu allan i oriau addoli. Yn aml mae ganddyn nhw bryderon am bethau fel lladrad, neu iechyd a diogelwch, ac maen nhw wrth eu bodd pan fyddwn ni'n mynd drwy'r materion hyn gyda nhw. Mae'n rhoi hyder iddyn nhw pan fydd eu hyswiriwr yn eu cefnogi i gadw eu heglwys ar agor yn ystod y dydd, ac yn dweud, er enghraifft, 'Peidiwch â gadael i iechyd a diogelwch fod yn rhwystr i agor eich eglwys, gallwch chi ei wneud, peidiwch â gadael i'r pethau hyn eich gorlethu.'

"Yr hyn sy'n dda am fy swydd yw nad oes dau ddiwrnod byth yr un peth. Ar ôl bron i bum mlynedd, rwy'n gallu delio â llawer o'r cwestiynau sy'n codi fy hun, ond lle na allaf, mae gan Ecclesiastical dîm arbenigol o yswirwyr eglwysig a rheolwyr risg sydd â channoedd o flynyddoedd o brofiad rhyngddyn nhw. Y syniad yw ein bod yn rhoi'r ateb cywir i chi y tro cyntaf."

**Cysylltwch â ni a rhowch wybod i ni sut gallwn gefnogi eich eglwys drwy e-bostio::**

**meetus@ecclesiastical.com**

# Rhoi llais i eglwysi ac elusennau

## Podlediad y Benefact Trust 'Beyond Funding'



Mae perchennog elusennol ein Grŵp, Benefact Trust, newydd lansio cyfres newydd o bodlediadau 'Beyond Funding' i gefnogi eglwysi ac elusennau ar eu siwrnai codi arian, ac i ddechrau sgyrsiau am faterion cymdeithasol o bwys gyda gwesteion sy'n arbenigwyr.

Fel cyllidwr grantiau Cristnogol, mae'r Benefact Trust yn brawf o rôl anhygoel eglwysi ac elusennau yn ein cymunedau. Mae'r podlediad newydd yn blatfform i fudiadau godi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n ein hwynebu mewn cymdeithas, y gwaith maen nhw'n ei wneud, ac i sgwrsio am ffyrdd y gallwn wneud gwahaniaeth yn ein heglwysi a'n cymunedau ein hunain.

Hyd yma, mae'r podlediad wedi ymdrin â phynciau o iechyd meddwl i newid hinsawdd, i dlodi bwyd a chynhwysiant anabledd; gan gynnwys rhai gwesteion ysbrydoledig fel y Trussell Trust, Eglwys Loegr a'r elusen anabledd, Through the Roof.

Yn y chweched rhifyn, mae Julian Atkins, Cyfarwyddwr Rhaglen Sero Net Eglwys Loegr, yn rhannu rhai awgrymiadau syml am sut gall eglwysi gymryd camau tuag at sero net, gan wneud y sylw dirdynnol: "Dim ond diferyn yn y môr ydy'r hyn rydyn ni'n ei wneud ond mae'r môr yn cynnwys llawer o ddiferion. Drwy fynd ati fel hynny, pwy ŵyr pa mor bell yr awn ni."

Mae'r Benefact Trust hefyd yn rhannu ei harbenigedd ei hun i gefnogi eglwysi ac elusennau, fel sut i wneud cais i gyllidwyr grantiau a sut i fesur effaith prosiect.

Yn rhifyn y Benefact Trust gyda'r Uwch Swyddog Grantiau a Gweithrediadau, Paul Playford, mae'n rhoi cipolwg ar yr hyn y mae cyllidwyr grantiau yn chwilio amdano mewn ceisiadau: "Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn sefyll allan. Eich bod yn ei gwneud yn glir iawn beth yw eich bwriadau, yr effaith y bydd y cais yn ei chael, a sut byddwch yn mesur yr effaith honno."

Os ydych yn credu y gallech elwa o bodlediad Beyond Funding, mae pob rhifyn ar gael i'w gwylio/gwrando arni ar Spotify ac YouTube:

**Spotify: open.spotify.com/show/6cTHM6fhGhPKOZTFhsUjlw**

**YouTube: youtube.com/@benefacttrust**

Am fwy o wybodaeth am raglenni grantiau'r Benefact Trust, ewch i:

**benefacttrust.co.uk**



# Cael eich eglwys i fod yn rhan o Wobrau'r Movement for Good heddiw!

Mae Ecclesiastical yn falch o fod yn rhan o'r Benefact Group, a gyda'n gilydd rydyn ni'n rhoi dros £1 miliwn i eglwysi ac elusennau yng Ngwobrau'r Movement for Good yn 2024.

**Mae raffl £1,000 olaf** y flwyddyn yn cael ei chynnal ym mis Rhagfyr, felly os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod, cofiwch anfon eich enwebiadau heddiw. A pheidiwch ag anghofio, un enwebiad fesul eglwys neu elusen fesul person, felly os oes gennych chi fwy nag un ffefryn, rhowch nhw ar waith hefyd.

## Pecynnau cyfryngau ar-lein hawdd eu defnyddio a lawrlwythiadau!

Rydyn ni hefyd yn cefnogi eglwysi ac elusennau sydd am roi hwb i'w henwebiadau. Mae gennym ni hyd yn oed dempledi ar gyfer eitemau fel cardiau, baneri gwefannau, posteri a hyd yn oed becynnau datganiadau i'r wasg. Fe welwch y rhain ar ein gwefan a gall elusennau eu personoli gyda'u logos a'u manylion eu hunain, a fydd yn rhoi mantais broffesiynol i unrhyw ddeunydd cyfathrebu.

**Mae'n dda i elusennau:** Mae cymryd rhan yng Ngwobrau'r Movement for Good nid yn unig yn helpu elusennau yn ariannol ond hefyd yn codi eu proffil, a'u cysylltu â chefnogwyr newydd a gwella eu gwelededd o fewn y gymuned.

**Mae'n dda i chi:** Drwy enwebu elusen, gall cefnogwyr chwarae rôl hanfodol wrth feithrin newid positif a chefnogi gwasanaethau a phrosiectau hanfodol.

I ddysgu mwy, ewch i:

**movementforgood.com/ecclesiastical**

# Cael gwerth o'ch pensiwn

Heddiw, ar gyfartaledd, mae pobl yn byw'n hirach yn eu blynyddoedd olaf nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn ei gwneud hi mor bwysig gwirio'n ofalus bod eich cynlluniau pensiwn yn eu lle i roi'r safon byw rydych chi'n gobeithio amdano ar ôl ymddeol.

## Gwyliwch y bwlch pensiynau!

Mae'n weddol bryderus bod ymchwil a gynhaliwyd yn 2023 ymhlith defnyddwyr yn y DU yn dangos nad yw cynifer â thri o bob pedwar o bobl yn gwybod beth yw gwerth eu cronfa bensiwn.[1]

Eglura **Kieran Harper**, ymgynghorydd ariannol annibynnol o Ecclesiastical Financial Advisory Services (EFAS), "Er gwaethaf y cyfrifoldeb cynyddol ar unigolion i sicrhau bod eu cynlluniau pensiwn ar y trywydd iawn, mae'n ymddangos nad yw llawer o bobl yn gwybod gwerth eu trefniadau pensiwn, gan eu gadael o bosib yn wynebu diffyg difrifol pan ddaw'n amser ymddeol."



Kieran Harper

Diolch byth, drwy weithredu'n brydlon, mae camau y gallwch eu cymryd i wirio bod eich trefniadau pensiwn yn parhau ar y trywydd iawn. Mae hyn yn cynnwys edrych yn ofalus ar eich datganiadau pensiwn blynyddol i gael amcangyfrif o'ch cronfa bensiwn yn y dyfodol, yn ogystal ag arwydd o'r incwm ymddeol a ragwelir y bydd yn ei gynhyrchu pan fyddwch yn ymddeol.

## Nôl ar y trywydd iawn

Mae gan wefan Money Helper gyfrifiannell ar-lein rhad ac am ddim defnyddiol iawn i'ch helpu i benderfynu a oes angen i chi roi mwy yn eich cronfa bensiwn.

**www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pensions-basics/pension-calculator**

Mae hefyd yn werth ystyried cael cyngor gan gynghorydd ariannol proffesiynol, a all eich helpu i adolygu eich cynlluniau pensiwn a chyflwyno unrhyw argymhellion angenrheidiol. I gael gwybod mwy am sut i adolygu gwerth eich trefniadau pensiwn, cysylltwch ag EFAS heddiw:

**0800 107 0190**
**getadvice@ecclesiastical.com**
**ecclesiastical.com/financial-advice**

[1] Ffynhonnell: Standard Life – Ymchwil a gynhaliwyd ymhlith 6,000 o ddefnyddwyr y DU, Gorffennaf 2023

**Sylwch:** Gall gwerth buddsoddiadau a phensiynau syrthio a chodi ac mae'n bosib i chi beidio â chael y swm rydych yn ei fuddsoddi yn ôl. Mae risg i'ch cyfalaf.

ecclesiastical
Financial Advisory Services



# Gwobrau Bwrsariaeth y Weinidogaeth

Gall cyfnod sabothol gynnig profiadau sy'n newid bywydau i glerigwyr unigol a chael effaith hirdymor ar eu cynulleidfa a'u cymuned. Byddwn yn lansio ein rhaglen MBA nesaf yng ngwanwyn 2025 sy'n rhoi llawer o amser i chi gynllunio; yn y cyfamser, gallwch ddarganfod mwy am y cynllun yma:

**ecclesiastical.com/church/ministry-bursary-awards**



# Cynllunio angladd

Gall Ecclesiastical eich helpu i wneud darpariaeth ariannol ar gyfer eich angladd, gan ysgafnu baich eich anwyliaid a sicrhau eich bod yn cael eich dymuniadau. Mae telerau ac amodau'n weithredol – gweler y wefan am fanylion.

**0800 055 6503**
**info@epsfunerals.com**
**funeralplans.co.uk**

# Yswiriant car

Mae yswiriant moduron Ecclesiastical ar gyfer clerigwyr wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer clerigwyr ac mae'n cynnwys buddion fel defnydd busnes, yswiriant ffenest flaen digyfyngiad a hyd at £500 ar gyfer nwyddau eglwysig yn y car. Mae telerau ac amodau yn weithredol. I gael gwybod mwy am sut gallai'r polisi hwn ddiwallu eich anghenion, cysylltwch â Gwasanaethau Yswiriant Ecclesiastical.

**0345 450 9396**
**ecclesiastical.com/car-insurance**

# Mae'r dyfodol yn ddisglair gyda Trust130

Os oes gennych chi gynlluniau ar gyfer prosiect eich eglwys a'ch bod yn chwilio am hwb i godi arian, beth am fanteisio ar ein cynllun Trust130?

O dan y rhaglen, a sefydlwyd yn 2017 i ddathlu ein pen-blwydd yn 130 oed, gall unrhyw gwsmer sy'n cymryd polisi yswiriant cartref newydd enwebu eglwys neu gadeirlan i dderbyn rhodd o £130. Efallai nad yw hynny'n swnio fel swm enfawr, ond mae ychydig bach yn helpu - ac nid ydych chi'n gyfyngedig i un taliad yn unig. Mae rhai eglwysi wedi derbyn sawl rhodd, wrth i fwy a mwy o aelodau'r gynulleidfa fanteisio ar y cynnig.

Rydyn ni wedi rhoi dros £500,000 yn ystod y saith mlynedd ers sefydlu Trust130, ac rydyn ni'n awyddus i barhau. A gall y rhoddion bach hyn gael effaith fawr iawn.

Eglwys y Mariners yn Nociau Caerloyw



- Mae **Eglwys y Santes Fair**, i'r gorllewin o Bury St Edmunds yn Suffolk, wedi derbyn £780 hyd yma i helpu gyda gwaith cynnal a chadw.
- Rhoddodd **Eglwys Santes Catherine** yn Burbage, Swydd Gaerlŷr, £910 oddi wrth yr Ymddiriedolaeth mewn cronfa i helpu i adnewyddu'r gegin.
- Defnyddiodd **Eglwys y Santes Fair** yn Wythall, Swydd Gaerwrangon, yr arian i helpu i ariannu pryd o fwyd wythnosol ar gyfer y rhai oedd angen cymorth yn y gymuned leol.
- Defnyddiodd **Eglwys y Mariners**, sy'n 170 oed, yn Nociau Caerloyw, ein rhodd i helpu i ariannu'r gwaith o osod band eang.

Boed yn rhodd i helpu gyda biliau gwresogi neu drydan, cynnal a chadw mynwentydd, prosiectau gwyrdd, i ariannu pecynnau croeso i drigolion sy'n newydd i'r ardal, neu ar gyfer rhywbeth hollol wahanol, beth am ddarganfod sut gallwch chi gymryd rhan?

I gael gwybod mwy, ewch i

**ecclesiastical.com/home-insurance/trust130**

## Gofynnwch am ddyfynbris yswiriant cartref

Mae Ecclesiastical yn yswiriwr arbenigol sy'n deall anghenion y rhai sy'n gweithio yn yr eglwys, a dros yr eglwys. Mae ein polisi yn helpu i ddiogelu eich cartref ac yn rhoi ystyriaeth i'r dyletswyddau ychwanegol a wnewch i'r eglwys.

**0345 777 3322** a dyfynnwch **CHOPS24**
**ecclesiastical.com/homeinsurance**

Telerau ac amodau yn weithredol – ewch i ecclesiastical.com/trust130-terms

SPRING 2024 Fairer Finance 1ST PLACE GOLD RIBBON CUSTOMER EXPERIENCE Home insurance

THE TIMES money mentor AWARDS 2023 Winner BEST HOME INSURANCE

SEPTEMBER 2024 Which? Best Buy BUILDINGS & CONTENTS INSURANCE

ecclesiastical

**I gael mwy o wybodaeth ac i ddiweddaru eich manylion, cysylltwch â ni**
**Ffôn:** 0345 777 3322 **Ebost:** churchteam@ecclesiastical.com
**Facebook:** Ecclesiastical **Twitter:** @churchmatters

Darllenwch fi ar-lein

MIX Paper from responsible sources FSC® C006509

Ecclesiastical Insurance Office plc (EIO) Rhif Cofrestru 24869. Benefact Group plc Rhif Cofrestru 01718196. Benefact Trust Limited Rhif Cofrestru 1043742. Mae'r Benefact Trust Limited yn Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr gyda'r Rhif Cofrestru 263960. Ecclesiastical Financial Advisory Services Ltd (EFAS) Rhif Cofrestru 2046087.Ecclesiastical Planning Services Limited (EPSL) Rhif Cofrestru 2644860. South Essex Insurance Brokers Limited (SEIB) Rhif Cofrestru 06317314. Mae pob cwmni wedi'i gofrestru yn Lloegr yn Benefact House, 2000 Pioneer Avenue, Gloucester Business Park , Brockworth, Caerloyw, GL3 4AW, y Deyrnas Unedig. Awdurdodir EIO gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ac fe'i rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Rhif Cyfeirnod Cwmni 113848. Caiff EFAS, EPSL ac SEIB eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Rhifau Cyfeirnod Cwmni 126123 (EFAS), 958152 (EPSL) a 47947 (SEIB).

© Ecclesiastical Insurance Office plc 2024. Argraffwyd ar bapur o fforestydd cynaliadwy. 10/24

Proudly part of the BENEFACT GROUP